# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol- Yn ymwneud â'r cynnig i gynnddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn Medi 2022

Medi 2022

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

**Os hoffech chi gael copi caled o'r adroddiad hwn, anfonwch e-bost at moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad post. Nodwch a hoffech gael y ddogfen yn Gymraeg neu Saesneg, neu'r ddwy iaith.**

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

**Cynnwys**

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Ymgynghoriad Ffurfiol | 4 |
| Cyfarfodydd | 5 |
| Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 6 |
| Ffurflenni Ymateb | 8 |
| Ymateb gan Estyn | 8 |
| Casgliad | 12 |
| Y cam nesaf | 13 |
| ATODIAD 1- Rhestr o rai sy’n derbyn y Ddogfen Ymgynghori | 14 |
| ATODIAD 2- Crynodeb o’r sylwadau / cwestiynau a godwyd yn y cyfarfodydd | 16 |
| ATODIAD 3- Canfyddiadau’r Cyngor Ysgol | 21 |
| ATODIAD 4- Ymateb y Corff Llywodraethu Llawn i’r ymgynghoriad: | 29 |
| ATODIAD 5- Crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd drwy Negeseuon E-bost | 31 |
| ATODIAD 6- Crynodeb o’r ymatebion drwy’r Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad Ffurfiol | 39 |
| ATODIAD 7- Ymateb Estyn | 71 |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi cwblhau cyfnod ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220. Bydd yr ysgol yn symud i gyfleuster pwrpasol newydd sbon yn nhref Dinbych er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar 17 Mai 2022 a daeth i ben ar 27 Mehefin 2022.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ar drefniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Côd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigwyr yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon, mae'n rhaid i ni:

- Grynhoi pob un o'r problemau a godwyd gan bobl yr ydym wedi siarad â hwy ac sydd wedi ysgrifennu atom;
- Dangos ein hymateb i'r problemau hynny; ac
- Amlinellu barn Estyn am fuddion cyffredinol yr hyn rydym yn ei ystyried.

Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu a ddylid rhoi unrhyw gynnig ar waith.

## Ymgynghoriad Ffurfiol

Anfonwyd fersiynau electronig o'r ddogfen Ymgynghori Ffurfiol i **460** o dderbynwyr. Gellir gweld rhestr lawn o'r derbynwyr yn **Atodiad 1**.

Gadawyd copïau caled o'r holl ddogfennau yn Llyfrgell Dinbych, yn ogystal â nifer o ffurflenni ymateb. Rhoddwyd sawl copi caled o bob dogfen i'r ysgol hefyd.

Trwy law yr ysgol, anfonwyd copïau caled o bob dogfen i 2 riant nad oedd modd cysylltu â nhw drwy e-bost a chysylltodd 1 person â'r awdurdod lleol yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gofyn am anfon copi caled trwy'r post, a ddarparwyd.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Cyhoeddwyd y dogfennau Ymgynghori Ffurfiol ar wefan CSDd ar 17 Mai 2022. Wnaethom hefyd gynhyrchu fersiwn o'r ddogfen i Blant a Phobl Ifanc

Cyhoeddwyd yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y ddogfen Ymgynghori Ffurfiol, Asesiad o Effaith ar Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, dogfen ymgynghori sy'n addas i Blant a Phobl Ifanc a fersiwn electronig o'r ffurflen ymateb ar wefan CSDd. Roedd pob dogfen ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

I helpu ac annog pobl i rannu eu barn, gwnaethom gynhyrchu dogfen ymateb (Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Ffurfiol). Roedd y Ffurflen Ymateb hon yn rhan o'r Ddogfen Ymgynghori ac felly cafodd ei chyhoeddi ar wefan CSDd hefyd. Addaswyd y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Ffurfiol i arolwg ar-lein; cyhoeddwyd dolen i'r arolwg hefyd ar wefan CSDd.

## Cyfarfodydd

Yn y ddogfen ymgynghori, cynigiwyd gwybodaeth am archebu slot 10 munud i drafod yr ymgynghoriad ar 24 Mai (rhwng 4-7yh). Cynigiwyd y rhain ar ffurf sesiynau ffôn neu sesiynau ar-lein - byddai cynrychiolwyr o'r ysgol a'r Awdurdod Lleol wedi cymryd rhan i ateb unrhyw gwestiynau. Ni wnaethpwyd unrhyw gais am y rhain.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol:

- Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Plas Brondyffryn ar-lein - 6 Mehefin 2022
- Cyfarfod staff y safle cynradd - roedd y cyfarfod hefyd ar agor i staff safle Tŷ'r Ysgol yn safle cynradd Ysgol Plas Brondyffryn - dydd Mawrth, 7 Mehefin 2022.
- Cyfarfod staff y safle uwchradd a oedd hefyd ar agor i staff Tŷ'r Ysgol yn safle uwchradd Ysgol Plas Brondyffryn - dydd Mercher, 8 Mehefin 2022.
- Cyngor yr Ysgol Gynradd ar safle cynradd Ysgol Plas Brondyffryn - 10 Mehefin 2022 am 10yb.
- Cyngor yr Ysgol ar safle uwchradd Ysgol Plas Brondyffryn - 10 Mehefin 2022 11.10yb.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfodydd hyn a'r ymatebion a roddwyd ar y pryd ar gael yn **Atodiad 2**.

Trefnwyd sesiynau ymgynghori ar gyfer cynghorau yr ysgol yn yr ysgol - cyngor yr ysgol gynradd a chyngor yr ysgol uwchradd. Gweler crynodeb o'r ddwy sesiwn yn **Atodiad 3**.

## Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 93 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, a chafwyd ymateb gan Estyn.

Cafwyd ymateb hefyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Plas Brondyffryn - gellir darllen yr ymateb hwn yn llawn yn **Atodiad 4**.

Roedd y gefnogaeth i'r cynnig fel a ganlyn:

| | **Cyfanswm** |
|---|---|
| O blaid y cynnig | 71 |
| Yn erbyn y cynnig | 18 |
| Heb nodi'r naill ffordd neu'r llall | 4 |
| **Cyfanswm** | **93** |

Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd pobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

| **Dull cysylltu** | **Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd** |
|---|---|
| Ffurflenni Ymateb Ar-lein | 89 |

## Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | |
|---|---|
| Llythyrau | 0 |
| E-byst | 4 |
| Cyfanswm | 93 |

Roedd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

| **Ymateb fel:** | **Nifer** |
|---|---|
| Disgybl | 0 |
| Rhiant | 20 |
| Aelod staff | 30 |
| Preswylydd lleol | 22 |
| Yn debygol o fod yn ddisgybl | 0 |
| Rhiant / gofalwr darpar ddisgybl | 4 |
| Arall | 7 |
| Heb ddweud | 10 |
| **Cyfanswm y cysylltiadau** | **93** |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Mae **Atodiad 5** yn crynhoi’r sylwadau a dderbyniwyd drwy negeseuon e-bost.

## Ffurflenni Ymateb

Lluniwyd y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Ffurfiol er mwyn penderfynu:

- os oedd pobl o blaid y Cynigion neu beidio;
- ym mha rinwedd roeddent yn ymateb;
- os oedd ganddynt unrhyw opsiynau amgen i’r cynnig presennol yr hoffent i’r cynigwyr eu hystyried;
- osoeddent yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau eraill.

Mae crynodeb o’r ymatebion i’r Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad Ffurfiol  wedi’i amlinellu yn **Atodiad 6** ynghyd ag ymateb y Cynigwyr.

## Ymateb gan Estyn

Amlinellir y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r Cynigion ac ymateb y Cynigwyr iddynt isod.  Mae’r ymateb llawn gan Estyn wedi'i nodi yn **Atodiad 7**.

| Sylw Estyn | Ymateb y Cynigwyr |
|---|---|
| Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal y safonau presennol o addysg yn yr ardal. | Cytunwyd |
| Mae’r cyngor wedi cyflwyno rhesymeg briodol am y cynnig. | Cytunwyd |
| Y capasiti arferol yn yr ysgol yw 116, ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae wedi bod dros ei chapasiti am y 6 blynedd | Mae’r Awdurdod Lleol o’r farn y gellir cyfiawnhau 220 ar gyfer yr adeilad newydd ar gyfer yr ysgol. |

| | |
|---|---|
| diwethaf. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ddisgyblion ar restr aros i fynychu'r ysgol ac mae'r cyngor yn disgwyl i'r galw gynyddu dros y blynyddoedd nesaf ac yn awgrymu bod capasiti o 220 yn rhesymol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw eglurhad o ran pam y dewiswyd y ffigwr hwnnw. | Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion (niferoedd ar y gofrestr ym Medi 2021) gyda 10 o ddisgyblion ar restr aros gyda'r posibilrwydd o 10 arall yn y system.<br><br>Ar hyn o bryd mae yna oddeutu 63 o ddisgyblion yn dal i aros am asesiadau oherwydd yr oedi a achoswyd gan y pandemig. Os caiff 40% eu derbyn i'r ysgol yna byddai 25 disgybl arall yn cael eu derbyn - byddai hyn yn gadael 39 o leoedd. O ystyried effaith y pandemig a'r canlyniadau a ragwelir mewn perthynas â'r galw am y lleoedd hyn, rydym yn credu bod 220 yn rif synhwyrol. |
| Mae'r cyngor hefyd yn rhestru rhai problemau gyda chyflwr y safleoedd a ddefnyddir ar hyn o bryd a byddai cyfleuster newydd yn mynd i'r afael â hyn. | Cytunwyd |
| Mae'r cyngor wedi darparu manylion sy'n ymddangos yn briodol o ran amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynnig. | Cytunwyd |

## Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | |
|---|---|
| Mae manteision disgwyliedig y cynnig yn cynnwys cynyddu capasiti i fodloni'r galw yn well, yr holl ddisgyblion a staff ar yr un safle, trefniadau pontio gwell a chael ystafelloedd penodol ar gyfer pynciau. Mae'r anfanteision yn cynnwys cynnydd mewn traffig i un safle ac, o bosib, ardal chwarae swnllyd i bob disgybl.<br><br>Ymddengys bod y rhain yn briodol ac yn rhesymol. | Cytunwyd |
| Ymddengys bod y camau lliniaru yn erbyn y risgiau hyn yn briodol ar y cyfan,fodd bynnag nid yw'r cyngor yn darparu digon o wybodaeth am lwybrau amgen os byddant yn methu cael caniatâd cynllunio a chyllid. | Os na cheir caniatâd cynllunio a chyllid, bydd yr ysgol yn parhau i gael ei chefnogi gan yr Awdurdod Lleol ac ni fydd y capasiti'n newid. |
| Mae'r cyngor wedi darparu rhesymau addas am ddiystyru tri o'r opsiynau hyn a dewis y pedwerydd opsiwn. | Cytunwyd |
| Mae'r cyngor yn ailadrodd y bydd trefniadau cludiant yn parhau i gael eu gwneud yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol y cyngor sir. Ymddengys bod hyn yn deg a rhesymol. | Cytunwyd |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | |
|---|---|
| Mae'r cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Mae'n nodi bod darparu darpariaeth addysgol well yn cynrychioli cyfle i gryfhau addysg Gymraeg yn yr ardal ac o ganlyniad cryfhau'r Gymraeg. Mae'n dod i'r casgliad, ar y cyfan, na fyddai yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. | Cytunwyd |
| Nid yw'r cyngor yn cyfeirio'n uniongyrchol at sut y bydd y cynnig hwn yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gyfarwyddyd mewn unrhyw Gyfnod Allweddol na phwnc, ond mae'r ysgol yn darparu'r adnoddau angenrheidiol i ddisgyblion gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n ddefnyddiol i ddarparu rhagor o fanylion ynglŷn â'r honiad hwn. | Nid oes gan ysgolion arbennig ddynodiad iaith. Yn seiliedig ar anghenion y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol, mae iaith yr addysg yn cael ei darparu'n briodol.<br><br>Gall rhai athrawon yn yr ysgol addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, os oes angen. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull a nodwyd yn Adran 6 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Ddinbych. |
| Mae'r cyngor wedi llwyddo i nodi'r costau ariannol ar gyfer y cynnig hwn. | Cytunwyd |
| Mae'r ysgol wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg, yn cynnwys effaith y cynnig ar brofiadau dysgu ac addysgu, gofal, | Cytunwyd |

| | |
|---|---|
| cefnogaeth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheoli. | |
| Mae'r cyngor wedi darparu dogfen o'r enw "asesiad o'r effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg".<br><br>Er bod y ddogfen hon yn ystyried effaith y cynnig ar y gymuned a'r iaith Gymraeg, nid oes digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith y cynnig ar grwpiau diamddiffyn neu ar ddisgyblion sydd â nodweddion a ddiogelir. | Bydd y cynnig yn gwella nifer y lleoedd sydd ar gael i bob disgybl yn cynnwys y disgyblion hynny â nodweddion a ddiogelir.<br><br>Bydd yr adeilad yn gwbl hygyrch. |
| Mae'r cyngor wedi ystyried mai un o brif fanteision y cynnig hwn yw y byddai'r gwaith adeiladu yn cael ei gynnal yn bell oddi wrth yr holl safleoedd ysgol presennol ac felly bydd hyn yn amharu cyn lleied â phosib ar addysg y disgyblion. | Cytunwyd |

## Casgliad

Wedi ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd hyd yma, mae swyddogion o'r farn y bydd cynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220 mewn cyfleuster newydd sbon yn nhref Dinbych yn dod â'r buddion mwyaf i ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae lleoliad y cyfleuster newydd yn amodol ar y broses gynllunio.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## Y cam nesaf

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori hwn bydd y cynnig yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Cabinet CSDd. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi yn dilyn penderfyniad y Cabinet.

Cynghorir ymgyngoreion na fydd sylwadau anffafriol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau. Bydd angen i unrhyw un sy’n dymuno gwrthwynebu wneud hynny’n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Bydd angen ailgyflwyno sylwadau a gyflwynir fel rhan o'r broses ymgynghori hon yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol os ydynt i'w hystyried fel gwrthwynebiadau.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 1- Rhestr o rai sy’n derbyn y Ddogfen Ymgynghori

| Rhif | Budd-ddeiliad | Nifer y derbynwyr |
|---|---|---|
| 1. | Rhieni disgyblion Ysgol Plas Brondyffryn | 131 |
| 2. | Athrawon a staff cefnogi yn Ysgol Plas Brondyffryn | 106 |
| 3. | Corff Llywodraethu Ysgol Plas Brondyffryn | 17 |
| 4. | Cyngor Ysgol Plas Brondyffryn - Cynradd ac Uwchradd | 2 |
| 5. | Esgobaeth Llanelwy | 1 |
| 6. | Esgobaeth Wrecsam | 1 |
| 7. | Penaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr pob ysgol yn Sir Ddinbych (Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig) | 50- Cadeiryddion<br>51- Penaethiaid |
| 8. | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych a Phartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | 2 |
| 9. | Pediatreg Gymunedol y GIG | 1 |
| 10. | Cynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych | 48 |
| 11. | Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Lleol a Rhanbarthol | 10 |
| 12. | Cyngor Tref Dinbych | 1 |
| 13. | Llywodraeth Cymru | 1 |
| 14. | Estyn | 1 |
| 15. | Undebau Llafur staff addysgu a chefnogi perthnasol | 8 |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru | 3 |
| 17. | Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 1 |
| 18. | Comisiynydd y Gymraeg | 1 |
| 19. | Cyngor Sir y Fflint - Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid | 1 |
| 20. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Pennaeth y Gwasanaethau Addysg | 1 |
| 21. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar | 1 |
| 22. | Cyngor Sir Ddinbych - Pennaeth Addysg | 1 |
| 23. | Cyngor Gwynedd - Pennaeth Addysg | 1 |
| 24. | Cyngor Sir Ynys Môn - Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | 1 |
| 25. | Gwasanaeth Anableddau Dysgu Plant a Phobl Ifanc | 1 |
| 26. | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth | 1 |
| | **Cyfanswm** | **460** |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 2- Crynodeb o’r sylwadau / cwestiynau a godwyd yn y cyfarfodydd

Cyfarfod Llywodraethwyr ar-lein ar Teams - dydd Llun, 6 Mehefin 2022

| Rhif | Sylw/Cwestiwn a Godwyd | Ymateb |
|---|---|---|
| 1. | Sut wnaeth CSDd benderfynu ar y rhif 220 ar gyfer y capasiti newydd? | Dewiswyd y rhif 220 i sicrhau bod yr ysgol mewn sefyllfa i ateb y galw yn y dyfodol. Mae nifer y disgyblion yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod oddeutu 140 ac mae heriau sylweddol wedi bod i ateb y galw oherwydd diffyg lle yn yr ysgol. Fe wnaethom edrych ar y niferoedd yn y system ar hyn bryd yn aros am asesiadau a lle ar gyfer twf yn y dyfodol. |
| 2. | Pa mor hir fydd hi nes y byddwn yn llawn unwaith eto? | Mae’n anodd dweud gydag unrhyw sicrwydd, fodd bynnag, rydym yn credu bod 220 yn rif rhesymol o ystyried y niferoedd sy’n aros am asesiadau ar hyn o bryd. Mae’r galw yn y dyfodol o ran ysgolion arbennig yn anodd iawn i’w ragweld. |
| 3. | Effaith ar yr polisi Derbyniadau | Mae mynediad i'r ysgol yn unol â'r polisi derbyn ac mae’n rhaid i bob disgybl fod â Datganiad o Angen Addysgol Arbennig yn dangos awtistiaeth fel y prif angen. Os oes angen adolygu'r polisi derbyn, bydd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | llywodraethwyr yn gwneud hyn ar y cyd â'r awdurdod lleol gydag unrhyw newidiadau yn destun proses ymgynghori. |
| 4. | Pryd fydd rhieni a llywodraethwyr yn gweld y diweddaraf o ran dyluniad yr adeilad newydd? | Ar hyn o bryd, rydym yn gobeithio bydd y broses cyn cynllunio yn dechrau yn yr haf a bydd yn cynnwys sesiwn galw heibio yn yr ysgol gyda chyfle i weld a thrafod y cynlluniau diweddaraf gydag aelodau o'r tîm prosiect.<br><br>Fel arall, gallwn ofyn i Wates gyflwyno'r dyluniad diweddaraf mewn cyfarfod Llywodraethwyr yn y dyfodol. |

Cyfarfodydd staff - cyfarfod y safle cynradd - hefyd ar agor i staff safle Tŷ'r Ysgol - dydd Mawrth, 7 Mehefin 2022, cyfarfod safle uwchradd a oedd hefyd ar agor i staff Tŷ'r Ysgol - dydd Mercher, 8 Mehefin 2022.

| Rhif | Sylw/Cwestiwn a Godwyd | Ymateb |
|---|---|---|
| 5. | A fydd gennym 220 o ddisgyblion ar ddiwrnod 1 yr adeilad newydd? | Na, mae'r Awdurdod Lleol yn credu y bydd yn gynnydd graddol dros nifer o flynyddoedd. Bydd y twf yn cael ei reoli er mwyn i ddisgyblion a staff allu setlo yn yr adeilad newydd. |
| 6. | A fyddwn yn dal i fod yn 'ganolfan ranbarthol'? | Mae'r ysgol, yn draddodiadol, wedi gweithredu fel darpariaeth ranbarthol ers y cafodd ei hailsefydlu ar ddechrau'r 2000au. Roedd yr ysgol yn cael ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | hystyried fel darpariaeth ranbarthol er bod y model ariannu ar gyfer yr ysgol drwy Sir Ddinbych yn unig.<br><br>Roedd yn wynebu galw cynyddol am leoedd a chapasiti cyfyngedig, ac felly gwnaethpwyd penderfyniad yn y tymor byr gan Sir Ddinbych, gan ddibynnu ar ganlyniad y cynigion Band B, i gyfyngu derbyniadau i ddisgyblion Sir Ddinbych yn dibynnu ar ganlyniad dull hirdymor ar gyfer yr ysgol.<br><br>Un o ffrydiau gwaith y prosiect fydd adolygu'r polisi derbyniadau er mwyn cadarnhau trefniadau mynediad i lleoliadau i ddisgyblion o du allan i'r sir. |
| 7. | A yw'r cynlluniau adeiladu yn rhai pendant? | Nac ydynt, mae dal angen i ni gynnal ymgynghoriad cyn cynllunio ac yna eu cyflwyno i gynllunio llawn. |
| 8. | Pa mor fawr yw'r ystafelloedd dosbarth o'u cymharu â'r ystafelloedd dosbarth rŵan? | Gweler y cymariaethau isod:<br><br>**Adeilad newydd -** Ystafelloedd Dosbarth Cyffredinol - oddeutu 55m$^{2.}$<br><br>Bydd ystafelloedd arbenigol yn amrywio o Ystafell Gelf - 60m$^2$ i Ddylunio a Thechnoleg - 72m$^2$, Labordy Gwyddoniaeth - 65m$^2$, Stiwdio Wyddoniaeth - 60m$^2$. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | | |
|---|---|---|
| | | Neuadd Fwyta / Prif Neuadd (Cynradd) - 122m²<br><br>Prif Neuadd (Uwchradd) - 145m²<br><br>Neuadd Fwyta (Uwchradd) - 138m²<br><br>**Meintiau presennol -** mae'r ystafelloedd dosbarth yn amrywio o 45m² i 54m²<br><br>Neuadd Fwyta / Prif Neuadd (Cynradd) - 103m²<br><br>Safle Lôn Parc - ystafell Dylunio a Thechnoleg - oddeutu 58m², Labordy Gwyddoniaeth - 69m² |
| 9. | Sut fyddwn yn rheoli symud y disgyblion i leoliad newydd o ystyried y bydd rhai yn teimlo'n ansicr? | Yn ystod y cam adeiladu, bydd cyfleoedd i staff a disgyblion ymweld â'r safle a dechrau ymgyfarwyddo â'r adeilad newydd. Wrth i'r dyddiad symud agosáu, byddwn yn gweithio'n agos â'r contractwyr a'r ysgol i sicrhau bod unrhyw ddisgyblion sydd angen ymweliadau ychwanegol â'r adeilad newydd yn cael hynny. |
| 10. | Sut mae'r prosiect yn cysylltu ag Ysgol Uwchradd Dinbych - maent yn colli un o'u caeau? | Mae'r prosiect hwn yn cysylltu'n agos â phrosiect Ysgol Uwchradd Dinbych mewn sawl ffordd. Wrth i'r prosiect hwn ddatblygu a chyrraedd cerrig milltir, bydd mwy o sicrwydd a hyder o ran cyflawniad |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | | |
|---|---|---|
| | | yn sicrhau cwmpas cliriach ar gyfer datblygiad Ysgol Uwchradd Dinbych.<br><br>Bydd y safle uwchradd Ysgol Plas Brondyffryn yn allweddol i'r datblygiadau yn Ysgol Uwchradd Dinbych oherwydd bod yr adeilad hwn mewn cyflwr cymharol dda a bydd yn galluogi Ysgol Uwchradd Dinbych i ddefnyddio'r gofod naill ai dros dro neu'n barhaol yn dibynnu ar gynnydd prosiect Ysgol Uwchradd Dinbych a pha waith y cytunir arno ar y safle. Bydd hyn hefyd yn cynnwys yr ardaloedd allanol sy'n cael eu defnyddio gan Plas Brondyffryn ar hyn o bryd. |
| 11. | Beth sy'n digwydd os oes oedi o ran y gwaith adeiladu - a fydd disgwyl i ni gynyddu ein capasiti yn ein safleoedd presennol? | Na fydd, os bydd oedi o ran y gwaith adeiladu, bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei addasu. |
| 12. | Pwy yw'r penseiri ac a oes ganddynt brofiad o ddylunio ysgolion ar gyfer disgyblion awtistig? | Penseiri Pozzoni yw penseiri'r prosiect, maent yn brofiadol iawn wrth ddylunio ysgolion AAA, mae mwy o fanylion ar gael ar eu gwefan:<br><br>www.pozzoni.co.uk |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 3- Canfyddiadau'r Cyngor Ysgol

**Adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda Chynghorau Ysgol Ysgol Plas Brondyffryn- Cyngor yr Ysgol Gynradd a Chyngor yr Ysgol Uwchradd**

Arweiniwyd y sesiynau gan Swyddog Arweiniol Ymgysylltu a Chyfranogiad yr Awdurdod Lleol ac fe'u cefnogwyd gan y staff o'r ysgol. Yn y sesiynau cynradd roedd nifer o'r disgyblion heb leferydd ac roedd staff wedi dod â chardiau PECS (System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau) er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y sesiwn.

Roedd y disgyblion ar gyngor yr ysgol uwchradd wedi cymryd y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori a'u trafod ag aelodau eraill o'u dosbarth, felly roedd ganddynt sawl ymateb ar gyfer pob cwestiwn - maent i gyd wedi'u nodi isod.

**Sut wyt ti'n teimlo am y cynnig?**

Yn y sesiynau, gofynnom i'r disgyblion sut yr oeddent yn teimlo am gael holl ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn i gyd yn yr un adeilad a chael adeilad newydd, gweler yr ymatebion o'r sesiynau isod.

Cyngor yr Ysgol Gynradd

- Bawd i fyny
- Cyffrous
- Ychydig yn nerfus
- Edrych ymlaen i fod gyda disgyblion eraill
- Da
- Hapus
- Iawn
- Eithaf hapus, eithaf nerfus
- Direudus

Cyngor yr Ysgol Uwchradd

- Edrych ymlaen-4

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

- Does dim ots gen i-2
- Da-4
- Teimlo'n cŵl am bopeth
- Hapus-3
- Hapus i gael iard newydd oherwydd bod yr iard bresennol yn rhy fach
- Da iawn oherwydd mae arnom angen mwy o le
- Ddim yn siŵr os bydd digon o ofod awyr agored i'r holl ddisgyblion ei ddefnyddio yn yr adeilad newydd.
- Iawn-3
- Fe allai fod yn ofnadwy oherwydd y bydd yn gaotig
- Teimlo'n iawn am fod yn yr un adeilad ond ychydig yn anghyfforddus am fod ar yr iard gyda phawb
- Iawn-1
- Da oherwydd y bydd yn haws i dacsis
- Bydd yn fwy eco-gyfeillgar
- Gallaf weld pam bod arnom angen adeilad newydd, fel na fyddwn yn talu biliau ar bob safle
- Ddim yn siŵr am fod o amgylch plant llai yn sgrechian - bydd yn fwy swnllyd
- Bydd yn newid braf
- Dod i adnabod disgyblion eraill
- Dwi ddim yn poeni
- Hapus iawn gan y byddaf yn gallu gweld fy ffrindiau yn yr ysgol gynradd.

**Beth sy'n bwysig i chi am yr ysgol rŵan?**

Yn y sesiynau fe wnaethom ofyn i ddisgyblion beth oedd yn bwysig iddynt am yr ysgol.

Ymatebion cyngor yr ysgol gynradd:

- Chromebooks
- Ystafell synhwyraidd
- Ffrindiau
- Siglenni a llithren y tu allan

## Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

- Gardd
- Ysgol goedwig
- Ystafell wyddoniaeth
- Drymiau
- Wal ddringo
- Gofod awyr agored
- Coginio
- Ystafell feddygol
- Ystafelloedd dosbarth mwy
- Cegin fwd - ystafelloedd dosbarth awyr agored
- Amser stori
- Llwybr beicio

Ymatebion cyngor yr ysgol uwchradd

- Gwersi
- Chromebooks
- Mynediad at TGCh
- Mae'n bwysig i wybod lle rydych yn mynd
- Un neuadd fwyta
- Y cyfarpar ar yr iard - mae siglenni ar goll a'r troellwyr gwyrdd wedi torri
- Ysgol goedwig
- Yr ystafell TGCh

**Beth nad ydych yn ei hoffi am eich ysgol rŵan?**

Ymatebion cyngor yr ysgol gynradd

- Gwaith
- Twrw uchel
- Dim cysgod ar yr iard
- Dim ond un ystafell feddygol sydd yna
- Does dim ystafelloedd bach / gwahanu

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Ymatebion cyngor yr ysgol uwchradd

- Toiledau - mae llawer ohonynt wedi torri
- Y ffreutur
- Mae angen mwy o doiledau
- Mae angen iard newydd - mae'r iard bresennol yn rhy fach

**Beth yw eich pryderon ynglŷn â'r cynlluniau?**

Pan mae cynlluniau i wneud newidiadau mawr, mae pryderon ynglŷn â'r hyn allai ddigwydd yn gwbl naturiol. Yn y sesiynau, gofynnom a oedd gan y disgyblion unrhyw bryderon am y cynllun. Bydd yr ymatebion isod yn cael eu hystyried os yw'r cynllun yn cael ei gymeradwyo.

Cyngor yr ysgol gynradd

- Cymysgu â'r plant hŷn
- Bwlis
- Pobl yn gwthio - bydd angen coridorau llydan

Cyngor yr ysgol uwchradd

- Tacsis - bydd yn anhrefnus iawn
- Trefniadau amser cinio
- Ddim yn gwybod y ffordd o amgylch yr adeilad
- Fe allai fod yn anodd i staff gadw disgyblion o safleoedd gwahanol ar wahân - bydd angen drysau cryf gyda chodau, fel nad yw'r drysau'n gallu cael eu hagor rhwng ardaloedd gwahanol.
- Pryder y byddwn yn colli'r ysgol goedwig.

**Beth hoffech chi ei weld yn yr ysgol newydd?**

Yn y sesiynau, gofynnom i'r disgyblion beth fydden nhw'n hoffi ei weld yn yr ysgol newydd pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Gweler yr awgrymiadau o'r sesiynau isod.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

- Ystafell lwyfan
- Ystafell gyfrifiaduron-3
- Ystafell gemau-2
- Ystafell actio
- Maes chwarae
- Maes chwarae mwy-2
- Siglenni ar y maes chwarae a maes chwarae gwell
- Campfa
- Ail faes chwarae llai gyda thrampolinau
- Cyfrifiaduron gwell gyda meddalwedd photoshop
- Ardal fyfyrdod
- Mae angen lifft ar gyfer pobl anabl
- Cae i ni ein hunain
- Ffreutur i ni ein hunain-2
- Ffynhonnau dŵr yn coridor fel nad ydym yn gorfod gofyn i'r staff-2
- Mae angen maes chwarae gwell
- Ystafell gelf, labordai gwyddoniaeth a thoiledau gwell
- Mwy o dechnoleg
- Neuadd chwaraeon
- Glaswellt ar y meysydd chwarae
- Cae pêl-droed bob tywydd
- Siglenni
- Trampolîn-2
- Wal ddringo
- Rhwyd pêl fasged-2
- Tŷ bach
- Ardal ar wahân i ddisgyblion sydd ddim yn mynd i wersi ac ati, gan fod hyn yn atal disgyblion eraill rhag defnyddio cyfleusterau.
- Pyst pêl-droed
- System gyfrifiadurol wedi'i diweddaru a gofod TGCh mwy
- Cyfleusterau DaTh a Chelf wedi'u diweddaru
- Mwy o ddewisiadau TGAU
- Cyfleusterau chwaraeon mwy priodol

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

- Loceri i ddisgyblion yn y coridorau
- Ardal chwarae meddal
- Ardal ymlacio i staff
- WI-FI gwell yn yr ysgol

**Cwestiynau?**

Gofynnom i'r disgyblion os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau am y cynllun. Gweler cwestiynau'r disgyblion a'r ymatebion isod.

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| A fydd digon o le ar y maes chwarae? | Bydd, mae'r ardaloedd chwarae wedi'u rhannu'n dair adran yn dibynnu ar eich oedran yn yr ysgol. Bydd gan rai ystafelloedd dosbarth fynediad uniongyrchol i ardal awyr agored. Bydd yna hefyd goetir bach ac ardal ysgol goedwig a chyfarpar megis siglenni a thrampolinau ar gael i bob disgybl eu defnyddio. |
| A fydd yna ystafelloedd grŵp / gwahanu ar wahân? | Bydd, mae gan lawer o'r ystafelloedd dosbarth ystafelloedd grŵp ynddynt felly mae'n hawdd iawn i ddisgyblion a staff gael mynediad atynt. |
| A fydd yna fapiau o'r ysgol newydd i helpu myfyrwyr a staff i ddod o hyd i'r ffordd o amgylch yr ysgol? | Os byddai mapiau'n ddefnyddiol, gellir trefnu hyn ar gyfer eich diwrnod cyntaf yn yr adeilad newydd.<br><br>Bydd disgyblion a staff yn cael gwahoddiad i ymweld â'r safle wrth i'r gwaith adeiladu ddatblygu er mwyn |

| | |
|---|---|
| | iddynt allu dod i arfer â'r cynllun ac ymweld ag ardaloedd o'r adeilad newydd sydd o ddiddordeb iddynt. |
| Sut fydd y tacsis yn gallu aros mewn rhesi? | Bydd y tacsis a'r bysiau mini yn dod i mewn i'r safle o Ffordd Ystrad ac yn aros mewn rhes o fewn parth diogel ger yr ysgol. Bydd y disgyblion ddim ond yn gadael y tacsis pan fydd pob cerbyd wedi dod i stop. Bydd y broses hon yn cael ei rheoli gan staff yr ysgol a bydd cerbydau ddim ond yn cael gadael y parth pan fydd yr holl ddisgyblion yn ddiogel yn yr ysgol.<br><br>Os bydd tacsi'n hwyr, bydd yn rhaid iddo giwio ym maes parcio'r staff cyn cael mynd i'r prif barth gollwng a chasglu. Mae yna hefyd ddwy ardal naill ochr i'r ysgol i dacsis allu gyrru ar iard yr ysgol a gollwng y disgyblion hynny sydd efallai'n cael trafferth dod allan o'r car y diwrnod hwnnw.<br><br>Yn ystod y diwrnod ysgol gall y parth diogel i dacsis gael ei ddefnyddio gan yr ysgol ar gyfer gwersi beicio ac ymwybyddiaeth o'r briffordd. |
| A fydd pawb yn yr ysgol yn gorffen eu diwrnod ar yr un amser? | Bydd hyn yn cael ei benderfynu a'i gytuno gan y pennaeth a llywodraethwyr. |

| | |
|---|---|
| | Mae'n debygol y bydd bwlch bach rhwng y disgyblion cynradd a'r disgyblion uwchradd yn gadael yr adeilad. |
| Sut fydd amser chwarae / amser cinio yn cael ei ddyrannu? Ar yr un pryd neu ar amseroedd gwahanol?<br><br>Sut fydd amser cinio'n cael ei drefnu? | Bydd gan y disgyblion cynradd eu hardal fwyta eu hunain yn y neuadd gynradd a mwy na thebyg y byddant yn cael eu cinio cyn y disgyblion uwchradd. Bydd gan y disgyblion uwchradd eu hardal fwyta eu hunain ar wahân i'r disgyblion iau. Bydd y pennaeth yn penderfynu ar yr amseroedd.<br><br>Bydd yr amseroedd chwarae hefyd yn cael eu cytuno gan y pennaeth - mae'n bwysig nodi y bydd gan y disgyblion eu hardaloedd penodol eu hunain i chwarae ynddynt ac ni fydd disgyblion hŷn yn yr un ardal o'r iard â'r disgyblion iau. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 4- Ymateb y Corff Llywodraethu Llawn i'r ymgynghoriad:

Mae'r cyflwyniad hwn i'r broses ymgynghori ynglŷn â'r adeilad ysgol newydd i Blas Brondyffryn gan y Corff Llywodraethu Llawn ac fe gytunwyd arno'n unfrydol yng Nghyfarfod y Llywodraethwyr heno, 27-06-2022 Alison Duncan (Cadeirydd), Simon Humphreys (Is-Gadeirydd), David Price (Pennaeth), Hannah Maddock, Louise Hollingworth, Joanne Morris, Eirlys Parry, Ali Ballantyne, Haydn Owen, Nathalie Thomas, Sian Evans, Mark Adams, Richard Crowther, Cheryl Cooper (Yn absennol heno ond darparwyd ymateb ysgrifenedig o blaid y datganiad hwn).

Capasiti'r ysgol ar hyn o bryd yw 116 o ddisgyblion. Yn ôl y cofnodion diweddaraf, y nifer cyfredol o ddisgyblion yn yr ysgol yw 139, h.y 23 yn fwy na'r capasiti a nodwyd - 81 yn llai na'r cynnydd arfaethedig i 220 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol dan straen mawr o ystyried y cyfaddawdau sydd wedi gorfod cael eu gwneud er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd mewn niferoedd disgyblion. Nid yw'r cynnydd hwn yn ddigwyddiad untro, mae'n sefydlog ac yn barhaus. Mae mwy a mwy o bobl ifanc yn cael diagnosis o awtistiaeth ac mae galw cyson am leoedd. Yn eithaf diweddar, cytunodd yr ALl y byddai nifer y derbyniadau newydd yn gyfyngedig i sefyllfaoedd blaenoriaeth yn unig. Er i'r penderfyniad hwn leihau nifer y derbyniadau newydd, a gynorthwyodd â sefydlogi trefniadaeth yr ysgol ond, heb os, achosodd niwed i'r bobl ifanc hynny oedd wir angen cael eu derbyn i'r ysgol.

Nid yw'r cyfaddawdau yr wyf wedi cyfeirio atynt yn fater o newidiadau bachi drefniadau'r ysgol, maent yn addasiadau sylweddol sydd wedi gwneud y niferoedd yn rhai mae posib eu rheoli ond sydd hefyd wedi dirywio ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Felly, mae'r ystod o ardaloedd neu ystafelloedd arbennig (ardaloedd gwahanu, ardaloedd chwarae, ardaloedd synhwyraidd, ardaloedd tawel) sydd, yn ogystal â'r ystafelloedd dosbarth arferol, yn rhan hanfodol o unrhyw ysgol arbennig, wedi cael eu lleihau nes eu bod yn gysgod o'r hyn sydd wir ei angen a beth oedd yn arfer bodoli. Mae hyn wedi arwain at, ar adegau, cynnydd mewn ymddygiadau ansefydlog, sydd i gyd yn fwy heriol fyth oherwydd bod y prosesau cydnabyddedig a sefydledig ar gyfer ymdrin â'r rhain wedi cael eu haddasu oherwydd diffyg lle. Mae'r nifer mewn dosbarth yn gyson uwch na'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer ysgolion arbennig, sef 8 disgybl i bob dosbarth.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Mae felly yn amlwg bod yr ysgol angen mwy o le, nid yn unig i ddarparu ar gyfer disgyblion presennol a’u galluogi i ffynnu, ond hefyd i estyn allan i ddisgyblion sydd eisoes wrth y drws, yn ogystal ag eraill sydd heb eu nodi eto ond a fydd ar y ffordd yn fuan. Mae’r Llywodraethwyr yn credu’n gryf fod angen ysgol fwy, ysgol well ac ysgol ag adnoddau ar frys a bydd yr ysgol newydd hon, o ystyried y galw cynyddol, wedi cyrraedd ei chapasiti o 220 o fewn y degawd nesaf.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 5- Crynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd drwy Negeseuon E-bost

| Crynodeb o Sylwadau | Ymateb y Cynigwyr |
|---|---|
| Pryder ynglŷn â cholli mannau gwyrdd a chynnydd mewn traffig. | Gweler yr ymateb llawn yn Atodiad 6 - adran 3. |
| O blaid mewn egwyddor.<br><br>Rhaid cwestiynu rhesymeg y broses o ddewis y safle.  Nid yn unig y bydd yn amddifadu’r ysgol gyfagos o fannau agored a chaeau chwarae gwerthfawr, ond oherwydd y bydd y rhan fwyaf o’r disgyblion angen cael eu gollwng a’u casglu gan gludiant, bydd hefyd yn ychwanegu at y traffig yn yr ardal.<br><br>Siawns y byddai safle y tu allan i’r dref yn fwy addas, safle â digon o fannau oddi ar y ffordd i barcio, gollwng a chasglu, heb amddifadu ysgolion eraill o gaeau chwarae a’i gwneud yn fwy anodd i rieni. | Gweler yr ymateb llawn yn Atodiad 6 - adran 3. |
| Rydw i’n credu y bydd effaith yr ysgol ar ddarpariaeth addysg gorfforol yn Ysgol Uwchradd Dinbych yn sylweddol oherwydd yr amser ychwanegol fydd yn ei gymryd i | Bydd lliniaru hyn yn ystyriaeth yn y dyluniad ar gyfer ailfodelu Ysgol Uwchradd Dinbych. |

| | |
|---|---|
| ddisgyblion gyrraedd y caeau pellaf. Sut fydd hyn yn cael ei liniaru? | |
| Os yw'r cynnig hwn yn symud yn ei flaen, a fydd yr ALl yn ystyried moderneiddio ac uno Ysgol y Parc ac Ysgol Frongoch ar safle Frongoch? | Ar hyn o bryd, nid oes cynnig i uno Ysgol y Parc ac Ysgol Frongoch. |
| Mae buddsoddiad sylweddol wedi bod mewn ysgolion prif ffrwd (Rhyl, Glan Clwyd, Brynhyfryd ac ati) ar draws y sir ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn Ninbych a dylai ei fod. | Mae cynigon Band B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu - Rhaglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif gynt - yn canolbwyntio ar dref Dinbych gyda 3 o'r projectau canlynol yn cael eu cynnig:<br><br>• Cynnig i ailadeiladu Ysgol Pendref,<br>• Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn drwy gyfleuster newydd pwrpasol,<br>• Cynnig i ailwampio Ysgol Uwchradd Dinbych.<br><br>Pe bai'r 3 chynnig yn symud ymlaen, byddai'n golygu buddsoddiad o £46.6 miliwn yn y dref. |
| Gan y cynigir adeiladu'r cyfleuster hwn ar ran o gae chwarae presennol Ysgol Uwchradd Dinbych, rydw i'n ystyried hwn yn gynnig annoeth a fydd, yn y tymor hir, | Gweler yr ymateb llawn yn Atodiad 6 - adran 3. |

| | |
|---|---|
| yn niweidiol i ddisgyblion a thrigolion Dinbych.<br><br>Mae mannau hamdden agored yn hynod werthfawr i iechyd corfforol ac iechyd meddwl y gymuned, ac yn anffodus, ers creu y llwybr troed / beiciau o amgylch ffin y safle arfaethedig, a oedd yn cynnwys gosod ffens o amgylch caeau Ysgol Uwchradd Dinbych, mae mynediad y cyhoedd i'r caeau chwarae a'r cyfleusterau athletau wedi cael ei gyfyngu'n ddifrifol.<br><br>Yn flaenorol, roedd llawer o unigolion / grwpiau yn defnyddio'r trac athletau y tu allan i oriau arferol ar gyfer hyfforddi a'r caeau ar gyfer rhedeg a cherdded, fodd bynnag fel y nodwyd yn eich ymateb i ymholiadau ar fy rhan i Dr James Davies AS, erbyn hyn, ychydig iawn o weithgareddau sy'n cael eu trefnu yno - nid yw hyn yn syndod oherwydd pandemig Covid-19 ac yn ôl pob tebyg mae'r caeau a oedd unwaith yn rhydd i'w defnyddio yn rhad ac am ddim yn awr yn codi ffi drwy'r ganolfan hamdden. | |
| Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod gofynion y mannau awyr agored yn llai na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Dinbych, a yw hyn wedi ystyried yr amcangyfrifon o dwf y boblogaeth yn hirdymor? O ystyried y nifer sylweddol o | Mae'r cynnig presennol i alluogi cynnydd yng nghapasiti Ysgol Plas Brondyffryn yn cynnwys atgyfnerthu darpariaeth ar un safle. Byddai hyn yn golygu adeiladu cyfleuster newydd ar un o'r ddau gae a |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | |
|---|---|
| dai newydd sydd wedi cael eu hadeiladu a’r prosiectau adeiladu tai sydd ar y gweill, mae’n debyg bod y Cyngor yn credu bod y boblogaeth leol yn debygol o gynyddu, a fydd yn cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Dinbych, ac angen am ôl-troed mwy y tu allan. | ddefnyddir ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Dinbych.<br><br>Mae'r cae y bwriedir ei ddatblygu ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio gan Ysgol Uwchradd Dinbych yn bennaf yn nhymor y gwanwyn / haf ar gyfer athletau, pêl-droed a rygbi - mae'r ysgol yn defnyddio'r cae pob tywydd yn y ganolfan hamdden yn ystod misoedd y gaeaf yn bennaf.<br><br>Mae'r safle hwn wedi'i ffensio i'w ddefnyddio gan yr ysgol, a gall y gymuned gael mynediad ato os ydyn nhw'n ei archebu drwy'r ganolfan hamdden.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r gofod a ddarperir gan y 2 cae allanol hyn ar gyfer Ysgol Uwchradd Dinbych yn fwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer y nifer o ddisgyblion presennol a'i chapasiti. Yn seiliedig ar gapasiti'r ysgol mae angen tua 45,000 metr sgwâr ar gyfer caeau. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol arwynebedd cyffredinol o tua 70,000 metr sgwâr yn cynnwys y cae pob tywydd.<br><br>Yn ystod cyfnod gwaith adeiladu Ysgol Plas Brondyffryn ac yna ar ôl cwblhau'r gwaith, byddai disgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych yn cadw |

| | |
|---|---|
| | mynediad i'r ail gae a'r cae pob tywydd.<br><br>Byddai'r cae a fyddai'n cael ei gadw gan Ysgol Uwchradd Dinbych ynghyd â'r defnydd parhaus o'r Cae Pob Tywydd yn y Ganolfan Hamdden yn rhoi mynediad i Ysgol Uwchradd Dinbych i gyfwerth ag oddeutu 46,000 metr sgwâr.  Byddai hyn yn cydymffurfio â’r maint a awgrymir ar gyfer yr ysgol.<br><br>Mae gwaith arolygu wedi dechrau ar y cae drws nesaf i CPD Tref Dinbych i weld a oes angen unrhyw waith adfer i sicrhau bod Ysgol Uwchradd Dinbych yn gallu parhau i'w ddefnyddio ar gyfer Addysg Gorfforol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda’r ysgol i sicrhau bod y cae yn hygyrch i ddisgyblion o’r ganolfan hamdden lle maent yn newid ar hyn o bryd. Bydd angen llwybr dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu ac yna ateb parhaol unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau, gan y bydd hyn yn effeithio ar brosiect Ysgol Uwchradd Dinbych.<br><br>Ar sail hyn, rydym o’r farn y bydd mynediad priodol i gaeau chwaraeon yn parhau i ddisgyblion ysgol yn |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | |
|---|---|
| | Ysgol Uwchradd Dinbych ar gyfer darparu ymarfer corff yn llawn. Bydd hyn yn caniatáu i'r ysgol barhau i fynd i'r afael â materion megis gordewdra ymhlith plant ac ati. |
| A fydd y cae chwaraeon sydd ar ôl yn cael ei uwchraddio i ddatblygu trac 400m a'r holl gyfleusterau digwyddiadau maes eraill hefyd? Os na fydd yn cael ei uwchraddio, bydd hyn yn rhoi disgyblion Dinbych dan anfantais o ran hyfforddi a chystadlu o'u cymharu â'u cyfoedion yn Rhuthun a Llanelwy, yn ogystal â grwpiau athletau lleol sy'n dymuno hyfforddi'n gystadleuol. | Gweler yr ymateb llawn yn Atodiad 6 - adran 3. |
| Hoffwn wneud cais am gadarnhad bod y Cyngor wedi bodloni'r holl ofynion yn nogfen Llywodraeth Cymru:<br><br>https://llyw.cymru/gwerthu-caeau-chwarae-canllawiau<br><br>Yn enwedig Adrannau 8.7-9.12 | Nid yw'r awdurdod lleol yn rhoi unrhyw ystâd yn y tir ac nid ydym yn 'gwaredu' y tir.<br><br>Fel rhan o'r broses cyn-cynllunio a chynllunio ymgynghorir â Chyngor Chwaraeon Cymru a Meysydd Chwarae Cymru. Mae trafodaethau anffurfiol eisoes wedi cael eu cynnal. |
| Er nad wyf yn gwrthwynebu'r cynnig i uno'r dair ysgol ar un campws, ni ddylai hyn fod ar draul cyfleoedd chwaraeon, a niwed posibl i iechyd corfforol disgyblion Ysgol Dinbych, a cholli yr unig gyfleusterau | Gweler yr ymateb llawn yn Atodiad 6 - adran 3. |

| | |
|---|---|
| athletau sy’n agored i’r cyhoedd yn Ninbych. | |
| Hoffwn gynnig bod lleoliad arall yn cael ei gynnig: y safle a brynwyd yn ddiweddar sy’n eiddo i’r cyngor, sef hen gampws ysbyty Gogledd Cymru, sydd wrthi’n cael ei ail-ddatblygu ar gyfer mwy o dai arfaethedig.<br><br>Pe bai rhywfaint o’r tir yno yn cael ei neilltuo a’r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yno, fe allai hyn fod yn ddewis arall delfrydol i ysgolion Brondyffryn, heb orfod colli caeau chwarae Ysgol Uwchradd Dinbych. Yn ogystal, mae’n agos iawn at safle preswyl Gerddi Glasfryn; fe allai hyn ganiatáu i’r preswylwyr gerdded i’w hysgol, yn hytrach na gorfod mynd mewn car bob dydd, gyda’r fantais o leihau ôl-troed carbon y cyngor. | CSDd sy'n berchen ar y safle ar hyn o bryd ond mae Cytundeb Datblygu gyda Jones Bros.(JB) ar waith. Fel rhan o'r cytundeb hwnnw mae ganddynt hawl ar hyn o bryd i feddiannu'r safle yn ogystal ag ymrwymiad i ddarparu diogelwch safle.<br><br>Mae JB wedi cyflwyno cais cynllunio amlinellol i adnewyddu ac addasu'r adeilad rhestredig yn 34 o fflatiau, ac adeiladu tai ar y safle er mwyn ariannu'r gwaith adfer. Mae aelodau wedi penderfynu rhoi caniatâd cynllunio amlinellol yn amodol ar arwyddo cytundeb adran 106.<br><br>Mae JB ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu adran 106 sy'n nodi manylion y datblygiad.<br><br>Mae’r safle y tu allan i ffin ddatblygu CSDd, a dim ond ar yr egwyddor o alluogi datblygiad y rhoddwyd caniatâd cynllunio.<br><br>Hyd yn oed gyda’r datblygiad, mae bwlch ariannu hyfywedd o hyd ac mae cais am gyllid wedi’i gyflwyno fel |

| | |
|---|---|
| | rhan o gais Cronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd a Bargen Dwf CSDd. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 6- Crynodeb o'r ymatebion drwy'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Ffurfiol

**Cwestiwn 1** A ydych o blaid y Cynigion?

| | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Ydw | 70 |
| Nac ydw | 18 |
| Dim ateb | 1 |
| | 89 |

**Cwestiwn 2:** Nodwch a ydych yn ymateb fel:

| **Math** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| Disgybl | 0 |
| Rhiant / Gofalwr | 20 |
| Athro / Aelod o Staff | 30 |
| Preswylydd Lleol | 22 |
| Darpar Ddisgybl | 0 |
| Rhiant / Gofalwr Darpar Ddisgybl | 4 |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| | |
|---|---|
| Arall | 6 |
| Heb Ateb y Cwestiwn | 7 |
| | 89 |

**Cwestiwn 3:** Darparwch sylwadau mewn perthynas â'r cynnig ac unrhyw awgrymiadau ar gynigion amgen y dylid eu hystyried:

Mae'r ymatebion hyn wedi cael eu rhoi mewn grwpiau yn ôl themâu isod, ochr yn ochr ag ymateb neu eglurhad gan yr awdurdod lleol:

| Crynodeb o Sylwadau |
|---|
| **Cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynnig**<br><br>Codwyd hyn gan 14 o ymatebwyr |
| Mae fy merch wedi dod o ysgol brif ffrwd i YPBD ac er ei bod yn dal i brofi cyfnodau heriol, mae'n cael llawer mwy o gefnogaeth gan YPBD, mwy na chafodd erioed yn yr ysgol brif ffrwd. Ni fydd disgyblion awtistig â Datganiad Anghenion Addysg Arbennig yn ffynnu mewn amgylchedd prif ffrwd gan nad yw'r staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddelio â'r galw / yr heriau a wynebir gan ddisgyblion awtistig, maent yn cael eu hystyried yn "broblemus" ac yn cymryd gormod o amser. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael eu bwlio mewn ysgol brif ffrwd oherwydd eu bod yn "wahanol". Mewn amgylchedd / ysgol arbenigol megis YPBD, mae'r staff yn gofalu am bob plentyn unigol ac yn eu cefnogi er mwyn iddynt allu datblygu i'r fersiynau gorau posib o'u hunain, gan fwynhau bywyd ysgol a oedd yn heriol iddynt o'r blaen. Maent yn derbyn ei gilydd gan eu bod i gyd yn gyfartal. Mae staff YPBD yn ardderchog ac yn ogystal â chefnogi eu disgyblion maent hefyd yn cefnogi'r rhieni - fel un teulu mawr. Er y bydd y cynnydd yn niferoedd disgyblion angen cynnydd cyfatebol yn nifer staff, mae'n bwysig dod o hyd i'r staff iawn gan y gall fod yn eithaf heriol i'r staff, yn emosiynol ac yn feddyliol, oherwydd anghenion heriol rhai o'r |

disgyblion sy'n mynychu YPBD, yn cynnwys fy merch. Wedi dweud hynny, mae gan y disgyblion barch mawr tuag at eu hathrawon a'i gilydd ac mae pob carreg filltir a gyrhaeddir yn foment balch iddyn nhw, eu hathrawon a'u rhieni. Mae eu perfformiad diweddar yn Eisteddfod yr Urdd eleni yn cadarnhau hyn.

Rydw i'n cytuno y dylid parhau â'r cynnig hwn, mae hi'n ysgol wych a dylai mwy o blant gael y cyfle i'w mynychu.

Rydw i'n credu y dylid cymeradwyo'r cynnig gan y bydd yn rhoi mynediad i 116 o blant eraill.

Dylid cynyddu nifer y lleoedd ym mhob darpariaeth AAA. Mae yna gymaint o blant ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd nad ydynt yn gallu cael mynediad at y cwricwlwm, nid oes digon o staff yn yr ysgolion ac nid yw anghenion y plant yn cael eu diwallu. Nid yw'n ymddangos fod unrhyw un yn gwrando na'n malio. Ychydig iawn sy'n cael ei wneud o ran trosglwyddo disgyblion o ysgolion prif ffrwd i leoliad arbenigol, a bydd cynyddu nifer y lleoedd hyn yn rhoi cyfle i gymaint o blant.

Wrth i addysg yng Nghymru ddatblygu, mae'n darparu cyfle bendigedig i ddysgwyr sydd â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth i ddatblygu mewn amgylchedd newydd a chyffrous sy'n ystyried anghenion unigryw y dysgwyr. Mae llawer o ddisgyblion sydd angen diogelwch y gefnogaeth wych sy'n cael ei darparu gan Ysgol Plas Brondyffryn ond sy'n cael eu gwrthod ar hyn o bryd. Er mwyn helpu pob disgybl yn Sir Ddinbych i gyflawni eu potensial, rydw i'n credu fod hwn yn gyfle gwych i sicrhau bod disgyblion â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth yn cael eu herio a'u cefnogi.

Mae Ysgol Plas Brondyffryn yn hanfodol i blant ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, gan fod eu hanghenion dysgu, cymdeithasol a phersonol yn cael eu diwallu, ac efallai nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu yn yr un ffordd mewn ysgol brif ffrwd. Dylai mwy o blant gael mynediad at ein cyfleusterau eithriadol.

Fel rhiant i blentyn sydd, ar hyn o bryd, yn cael budd enfawr o fod yn Ysgol Plas Brondyffryn, rwy'n llwyr o blaid y cynnig.  Fel athro/athrawes mewn ysgol gynradd leol, rwy'n gwybod am sawl plentyn a fyddai'n ffynnu yn Ysgol Plas Brondyffryn, fel mae ein plentyn ni, ond yn anffodus nid oes digon o leoedd yno ar hyn o bryd. Mae ein bywyd

teuluol wedi newid yn llwyr er gwell ers i'n plentyn ddechrau yn Ysgol Plas Brondyffryn. Mae ein plentyn yn llawer hapusach ac yn fwy cyfforddus sydd, wrth gwrs, yn cael effaith enfawr arnom ni fel teulu cyfan. Mae ein plentyn yn awr yn cyflawni ei botensial llawn diolch i'r ysgol arbenigol hon a'i staff. Siawns fod pob plentyn yn yr un sefyllfa â'n plentyn ni yn haeddu'r cyfle hwn i gyflawni eu potensial llawn a bod mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion penodol? Mae'r ffaith y byddai pob safle'r ysgol ar un safle hefyd yn bwysig iawn ar gyfer cysondeb i'r disgyblion hyn.

Rwyf o blaid y cynnig gan fy mod yn credu fod pob plentyn ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn haeddu cyfle i fynd i ysgol a fydd yn eu deall yn llwyr.

Rwy'n credu bod y cynnig yn darparu addysg gadarnhaol a fydd o fudd i fwy o blant Bydd cael pob cyfnod allweddol ar un safle â sawl mantais hefyd. Mae'r ffaith fod plant ar restr aros am leoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd yn dangos bod angen darpariaeth o'r fath. Rwy'n credu bod y cynnig i gynyddu niferoedd i 220 yn ardderchog. Mae'n golygu y bydd mwy o blant yn elwa o'r addysg arbenigol sydd ar gael. Bydd buddion i'r gymuned o ran creu swyddi a bydd cyfle hefyd i greu caffi cymunedol. Rwy'n credu y byddai ysgol o faint mwy yn ased gwirioneddol i Gyngor Sir Ddinbych.

Rwy'n meddwl fod hwn yn gynnig ardderchog i roi cyfle i blant, fel fy mab, allu ffynnu mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Dechreuodd fy mab yno ym mis Medi ac mae wedi datblygu llawer ers hynny. Rwy'n adnabod llawer o blant mewn ysgol brif ffrwd a ddylai fod mewn ysgol AAA ond nid oes lleoedd ar gael.

Mae angen hyn.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r cynnig, mae angen ysgol newydd gan y bydd y niferoedd yn parhau i gynyddu. Gobeithio y bydd dwy flynedd yn caniatáu ar gyfer newid graddol i'n disgyblion wrth i ni eu cefnogi i symud i adeilad newydd.

Mae fy nith wedi bod yn mynychu'r ysgol hon ers mis Medi ac mae hi yn blentyn hollol wahanol!! Mae hi rŵan yn sgipio i mewn i'r ysgol ond o'r blaen, mewn ysgol prif ffrwd, roedd yn arfer gafael yn dynn yn nillad ei mam gan nad oedd eisiau mynd i mewn!! Mae

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Ysgol Plas Brondyffryn, yn fy marn i, yn rhan hanfodol o ddatblygiad unrhyw blentyn awtistig (neu blant ag anableddau eraill).<br><br>Mae hwn yn gyfle cadarnhaol iawn i'r holl ddisgyblion a staff, yn ogystal â disgyblion yn y dyfodol, mae mwy o le, cyfleoedd i ddysgu mwy o sgiliau newydd megis gwasanaethu'r gymuned yng nghaffi newydd yr ysgol ac chael ein holl ddisgyblion a staff ar un safle, o fantais mewn ffordd gefnogol a rhyngweithiol.<br><br>Rwy'n llwyr gefnogi'r dewis a ffefrir o'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol a dod â'r safleoedd ysgol ynghyd ar safle ysgol pwrpasol newydd, er y gallai'r cynnydd mewn capasiti i 220 o leoedd lenwi mewn ychydig o flynyddoedd o ystyried y galw cynyddol am leoedd. |
| **Ymateb:** |
| Nodwyd y pwyntiau |
| **Colli caeau chwarae / mannau gwyrdd / trac athletau:**<br><br>Codwyd y mater gan 19 o ymatebwyr |
| A fydd caeau chwarae eraill yn cael eu darparu?<br><br>Byddai datblygu'r safle arfaethedig yn golygu colli'r caeau chwarae ger Canolfan Hamdden Dinbych. Ni allaf gefnogi, esgusodi na deall y penderfyniad i gael gwared ar yr ased hwn o'r gymuned. Yn fy marn i, nid yw'r caeau chwarae yn cael eu defnyddio ddigon ar hyn o bryd. Mae'r ffens derfyn a osodwyd yn ddiweddar wedi atal y cyhoedd rhag defnyddio'r cae yn achlysurol, a'r gallu i blant chwarae'n rhydd mewn gofod agored mawr. Rwy'n credu y gellir ond eu defnyddio ar hyn o bryd drwy drefnu ymlaen llaw gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf ac eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer gwersi ymarfer corff yr ysgol yn bennaf. Mae'r cynnig i adeilad ysgol newydd ar y cae hwn yn dibynnu ar symud ardal chwarae / chwaraeon agored i ardal ger Parc Canol a'r cae pêl-droed. Yn fy marn i, mae hyn yn annerbyniol gan nad yw'r tir yn fflat / lefel ac nid yw'n ddigon mawr |

ar gyfer trac rhedeg 400m addas. Mae’n werth nodi bod darpariaeth athletau yn hanfodol i gwricwlwm Addysg Gorfforol modern, ac mae awgrymu y dylai gofod chwaraeon go lew ‘wneud y tro’ i ddisgyblion ysgol Dinbych yn gwbl annigonol. Pwynt arall sy’n werth ei nodi yw nad oes trac athletau yn Sir Ddinbych. Mae Conwy, Sir y Fflint, Ynys Môn ac ati, i gyd yn darparu’r cyfleusterau hyn ar gyfer eu cymunedau, ac mae pob un ohonynt wedi arwain at ddatblygu clybiau chwaraeon yn y lleoliadau hyn.

Rwy’n cefnogi gwelliannau i Blas Brondyffryn ond mae gen i bryderon am golli caeau chwarae ar y safle arfaethedig.

Mae’r cae yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer corff ac nid yw dinistrio man gwyrdd er mwyn datblygu adeiladau yn beth da i’r amgylchedd nac ychwaith i les trigolion.

Pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i anghenion Ysgol Uwchradd Dinbych ar ôl i’r tir gael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgol Brondyffryn - a oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i anghenion adnoddau tir glas, adnoddau chwaraeon / athletau yr ysgol a’r gymuned ehangach oherwydd newid defnydd y tir arfaethedig?

Rwyf yn erbyn y cynnig gan y bydd y safle arfaethedig yn defnyddio’r caeau chwarae a’r mannau gwyrdd a ddefnyddir gan y gymuned a’r safle arfaethedig yw’r unig drac rhedeg sydd ar gael yn Ninbych a’r unig drac rhedeg 400m maint llawn yn Nyffryn Clwyd.

Mae lleoliad yr adeilad newydd yn golygu cael gwared ar y mannau gwyrdd gwerthfawr sydd yn hynod brin yn Sir Ddinbych ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill. Yr ysgol sydd â’r unig drac fflat 400m yn y sir, chwaraeon sy’n dioddef o hyd ac mae hyn yn digwydd dro ar ôl tro wrth i gaeau 3G gael eu rhoi dros ardaloedd naid hir, mae gan ysgolion lai o gaeau chwarae i’w defnyddio.

Rwy’n llwyr gefnogi adeiladu ysgol newydd, fodd bynnag, rwy’n anghytuno mai hwn yw’r lleoliad gorau ar ei chyfer. Mae yna gymaint o adeiladau newydd wedi cael eu datblygu yn Ninbych dros y 2-3 blynedd ddiwethaf, pan oeddwn yn arfer cerdded i lawr tuag at Brwcws, roedd caeau’n fy amgylchynu - ond nid yw hyn yn wir bellach. Mae tai bob ochr i’r ffordd - felly yr unig olygfa sydd gennyf yw brics. Ar hyn o bryd, pan rwyf yn cerdded ger y Ganolfan Hamdden, rwy’n mwynhau gwylio plant Ysgol Uwchradd Dinbych yn chwarae pêl-droed, rygbi, hoci ac athletau. Rwy’n mwynhau edrych yr ehangder o

laswellt sydd yno. Os yw'r cynnig hwn i adeilad ysgol newydd yn symud yn ei flaen, yr oll fydd yna i'w weld fydd brics. Nid yw hyn yn dda i les trigolion Dinbych - dyma ein hardaloedd hamdden - siawns y dylem allu cael rhai ardaloedd lle gallwn fwynhau mannau gwyrdd?

Er fy mod yn deall yr angen am safle newydd, mae'n ymddangos mai dim ond nifer fach o deuluoedd fydd yn elwa o gymharu â'r rheini fydd yn colli allan drwy adeiladu'r ysgol ar y prif gaeau chwarae yn Ninbych. Buaswn o blaid y cynnig pe na bai am y lleoliad. Gwyddom fod nifer yr achosion o ordewdra yn cynyddu ac mae cael plant i wneud ymarfer corff yn her fawr - mae'r ardal hon o Ddinbych yn rhoi cyfle i fy mhlentyn i, a phlant eraill, gael gweld mannau gwyrdd yn hytrach na choncrid. Nid yw Dinbych yn ddigon ffodus i fod â digonedd o fannau agored o fewn y Goron ac mae mannau tu allan i'r dref wedi'u hamgylchynu gan gaeau gyda mynediad cyfyngedig. Rydw i wrth fy modd yn gyrru ar hyd Ffordd Ystrad gyda'r olygfa fendigedig o'r caeau chwarae, ac mae fy mhlentyn yn mwynhau mynd ar ei sgwter o amgylch y llwybr - sydd yn gymharol newydd ac rwy'n tybio bod y cyngor wedi gwario llawer iawn o arian arno - i'r cae chwarae yng nghefn y cyrtiau tenis. Nid yw'r ardal hon yn berffaith, o bell ffordd, ond dychmygwch faint o blant ellid eu hannog i fentro i'r awyr agored pe bai'n ardal bwrpasol i'w hannog i fod allan yn yr awyr agored yn fwy nag y mae ar hyn o bryd a phe bai'r cyngor yn adeiladu rhai cyfleusterau i annog plant i fynd allan a chamu i ffwrdd oddi wrth eu sgriniau. Unwaith y bydd y man agored hwn wedi mynd, fyddwn ni byth yn gallu ei gael yn ôl, ac rwy'n credu y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar bobl ifanc Dinbych.

Yn fy marn i, nid yw nid yw cymryd yr ardal ddynodedig yn iawn. Ychydig iawn o ardaloedd chwarae sydd yn Ninbych, a byddai cymryd y man gwyrdd hyn yn lleihau hyn yn fwy fyth.

Nid wyf yn cytuno ag adeiladu'r ysgol ar dir glas. Mae caeau chwarae a mannau gwyrdd yn bwysig i'n cymuned ac nid wyf yn meddwl y dylid adeiladu arnynt. Tybed a oes unrhyw safleoedd brown sydd angen eu hailddatblygu a ellid eu defnyddio yn lle?

Y safle arfaethedig yw'r unig gae gwastad ar gyfer chwaraeon a thrac rhedeg yn Sir Ddinbych. Byddai'r cynnig hwn yn golygu cael gwared ar fwy o fannau gwyrdd yn Ninbych Isaf a ddylai gael eu gwarchod yn hytrach nag adeiladu arnynt. Hyd yn

ddiweddar, roedd y cae chwaraeon wedi cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan drigolion lleol, a hynny am dros 30 o flynyddoedd, ar gyfer chwaraeon i'r teulu, picnics, trac rhedeg, lle i bobl ifanc chwarae pêl-droed a gwneud defnydd o'r man gwyrdd cyfyngedig yn gyffredinol. Wrth gwrs, daeth hyn i ben wedi i Hamdden Sir Ddinbych, sydd yn ei hanfod yn rhan o CSDd, roi ffens o amgylch y cae a dechrau codi tâl am ei ddefnyddio, sydd yn y pen draw wedi cefnogi honiadau yn y cynnig nad yw'r cae yn cael ei ddefnyddio. Dim ond wythnos diwethaf roedd pobl ifanc yn chwarae pêl-droed yn y maes parcio yn hytrach nag ar y caeau sydd â ffensys o'u hamgylch. Ble mae pobl ifanc i fod i fynd?

Tybed a oes unrhyw le arall i adeiladu yn hytrach na defnyddio mwy o fannau gwyrdd.

Bydd Ysgol Uwchradd Dinbych a'r gymuned sy'n talu i ddefnyddio'r cae chwarae presennol yn colli'r man gwyrdd hwn, y trac athletau a'r cae pêl-droed os fydd y gwaith adeiladu yn cael ei gynnal. A yw hyn yn deg i gymuned Dinbych?

Mae'r cae chwarae y mae'r adeilad arfaethedig i fod i gael ei adeiladu arno yn llawer mwy na chae chwarae yn unig. Dyma'r unig drac rhedeg ar laswellt yn yr ardal ac mae'n hanfodol o ran hyfforddi rhedwyr sydd, mewn rhai achosion, yn cynrychioli gogledd cymru mewn rasys. Byddai'n gamddarlun llwyr i dybio mai dim ond cae chwarae yn unig yw hwn a'i drin â chyn lleied o ystyriaeth. Bydd y penderfyniad i adeiladu arno yn cael effaith negyddol ar gynrychiolaeth Sir Ddinbych a Gogledd Cymru ym maes chwaraeon. Rwy'n erfyn arnoch i roi i bob un ohonom y cyfle parhaus i redeg a chynrychioli'r ardal rydym yn ei charu yn y cystadlaethau chwaraeon rydym yn eu caru.

Nid yw lleihau'r mannau gwyrdd a mynediad at ardaloedd chwarae a chwaraeon yn cyd-fynd â'r mentrau i wella iechyd a chynyddu gweithgarwch corfforol. Mae cyfuno'r ysgolion a chynyddu capasiti'n wych, ond byddai'n well pe bai'r adeilad yn cael ei leoli ar safle presennol nad yw'n lleihau mannau gwyrdd.

Y safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad newydd, ar hyn o bryd, yw cae pêl-droed / trac athletau Ysgol Uwchradd Dinbych. Mae'r man gwyrdd hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned (maent yn ei logi). Byddai colli'r man gwyrdd hwn yn golygu y byddai Ysgol Uwchradd Dinbych a phobl ifanc y gymuned dan anfantais. Mae dau gae arall sy'n

| |
|---|
| eiddo i Ysgol Uwchradd Dinbych, y cae rygbi ond mae'r cael hwn ar oleddf ac yn anwastad, mae hefyd yn llawer pellach o'r ganolfan hamdden. Mae'r Sir yn rhoi elw o flaen lles ein pobl ifanc ac oedolion. Mae'r cynnig newydd hwn yn sicr yn gynllun i wneud arian ar gyfer y Sir yn hytrach na'r sir yn edrych ar anghenion ei chymuned a dyna pam fy mod yn erbyn y cynnig hwn. Ychydig iawn o fannau gwyrdd sydd gennym ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a byddai'r adeilad newydd hwn yn golygu na fyddai gennym unrhyw le i'r clwb athletau ei logi.<br><br>Mae Estyn wedi gwneud sylw ar y diffyg mannau gwyrdd yn Ysgol Uwchradd Dinbych, ond eto nid yw Cyngor Sir Ddinbych i'w weld yn meddwl bod cael gwared ar fwy o'u mannau gwyrdd yn broblem?<br><br>Nid oes digon o fannau gwyrdd ar gyfer y disgyblion presennol yn Ysgol Uwchradd Dinbych, cafodd hyn ei amlygu yn ystod adroddiad diweddar gan Estyn, fodd bynnag, rydych yn dal i gynnig adeiladu'r ysgol ar y cae ysgol presennol gan fynd â mwy o fannau gwyrdd oddi wrth y plant. |
| **YMATEB:** |
| Mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad ffurfiol hwn mewn perthynas â chynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn, ac nid lleoliad yr adeilad newydd - bydd hyn yn amodol ar y broses gynllunio ac y bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gyfer cyn gwneud unrhyw benderfyniad.<br><br>Y cynnig presennol yw i adeiladau ar un o gaeau Ysgol Uwchradd Dinbych - defnyddir y cae hwn gan Ysgol Uwchradd Dinbych, yn yr haf yn bennaf ar gyfer athletau, pêl-droed a rygbi - mae'r ysgol yn bennaf yn defnyddio'r cae bob tywydd yn y ganolfan hamdden.<br><br>Mae ffens o amgylch y safle ar hyn o bryd a gall y gymuned ond cael mynediad ato os ydynt yn trefnu hynny drwy'r ganolfan hamdden. Cyn cymryd unrhyw archeb, mae'n rhaid i'r ganolfan hamdden wirio gyda'r ysgol i weld os yw ar gael a chael eu caniatâd i ddefnyddio'r ardal. Caiff yr ardal ei defnyddio gan glwb rhedeg i ieuenctid ar foreau |

| |
|---|
| Sadwrn a nosweithiau Mawrth ond nid oes unrhyw archebion eraill wedi'u gwneud ar wahân i adran ieuenctid Clwb Rhedeg Dinbych Harriers.<br><br>Mae gwaith arolygu wedi dechrau ar gae arall Ysgol Uwchradd Dinbych ger Clwb Pêl-droed Tref Dinbych i bennu a oes angen gwneud unrhyw welliannau i sicrhau bod Ysgol Uwchradd Dinbych yn gallu parhau i'w ddefnyddio ar gyfer addysg gorfforol ac i sicrhau ei fod ar gael ar gyfer defnydd cymunedol.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod y cae yn hygyrch i ddisgyblion o'r ganolfan hamdden lle maent yn newid ar hyn o bryd. Bydd angen cael llwybr dros dro yn ystod y cam adeiladu ac yna datrysiad parhaol ar ôl cwblhau'r prosiect gan y bydd hyn yn effeithio ar brosiect Ysgol Uwchradd Dinbych. |
| **Capasiti'r ysgol**<br><br>Codwyd y mater gan 16 o ymatebwyr |
| Rydw i'n croesawu'r cynnig hwn i gynyddu'r capasiti yn yr ysgol bwysig hon.<br><br>Mae'r cynnig i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Plas Brondyffryn yn gwbl haeddiannol a byddai'n ddiweddariad gwych o'r sefyllfa bresennol ar gyfer disgyblion, rheini ac athrawon yr ysgol. Rwy'n llwyr gefnogi'r syniad hwn.<br><br>Rydw i'n cefnogi'r angen i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Brondyffryn mewn egwyddor. Rydw i'n deall ac yn cefnogi'r angen am adnoddau sydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain gan sicrhau adnoddau helaeth ac addas i bob disgybl yn yr ysgol i gefnogi addysg sy'n addas ac o'r ansawdd uchaf. Rydw i'n falch o weld bod y cynnig yn sicrhau capasiti ar gyfer y dyfodol, nid yn unig yn y tymor byr ond y tymor hir hefyd.<br><br>Mae angen mawr am fwy o gapasiti - ac angen am ddarpariaeth arbenigol.<br><br>Rwy'n credu bod angen mwy o leoliadau arbenigol i ddiwallu'r galw cynyddol ar gyfer ein pobl ifanc awtistig. Gobeithio y bydd cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol o gymorth i ateb y galw cynyddol hwn ar gyfer disgyblion Sir Ddinbych a disgyblion y tu allan i'r sir hefyd. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Mae gwir angen am fwy o leoedd. Mae llawer o rieni yn dod ataf, rhieni gyda phlant sy'n cael trafferth mewn ysgolion prif ffrwd sy'n anaddas ar gyfer diwallu anghenion y plentyn, gan arwain at effaith hynod niweidiol ar iechyd meddwl y person ifanc. Hefyd, fel y gwyddom, mae lleoliad 3-18 yn darparu cysondeb, gofal a'r canlyniadau academaidd gorau. Cymeradwywch yr ysgol newydd.

Mae dirfawr angen am ddarpariaeth ar gyfer Anhwylderau y Sbectrwm Awtistiaeth ac mae cynyddu capasiti'r ysgol drwy adeiladu adeilad newydd yn sicr yn angenrheidiol.

Rydym o blaid y cynnig gyda rhai amheuon. Er bod y syniad o gyfleusterau gwell yn ddeniadol iawn, rydym yn pryderu mai holl bwrpas symud ein mab iau i YPD oedd iddo allu mwynhau amgylchedd tawelach, llai prysur gyda llai o ddisgyblion ac i allu ffynnu yn hytrach na theimlo'n bryderus o hyd. Rwy'n siŵr bod teuluoedd eraill yn yr un sefyllfa'n union. Rydym yn pryderu y bydd dyblu nifer y disgyblion yn gynnydd difrifol iawn o ran sŵn a phrysurdeb a bydd hyn yn effeithio ar ei brofiad o ysgol dawel.

Dydw i ddim yn synnu bod yna eisoes restr aros i ddisgyblion eraill ymuno ag YPBD, mae hi'n ysgol ardderchog. Mae'n gwneud synnwyr i ddod â'r holl safleoedd ynghyd i adeilad mwy modern i ddarparu ar gyfer a diwallu eu hanghenion addysgol a meddyliol. Mae ysgolion eraill wedi cael eu moderneiddio i ddarparu ar gyfer galwadau, ac nid yw YPBD yn wahanol. Rydw i'n cefnogi'r cynnydd yn nifer y disgyblion a'r adeilad newydd.

Mae'r sefyllfa bresennol yn yr ysgol yn gwbl annerbyniol o ran gofod. Mae'n dod yn fwyfwy anodd i greu'r amgylchedd y mae disgyblion ei angen i ffynnu. Mae'r ysgol mor lawn, ychydig iawn o gyfleoedd sydd yna i greu'r hyblygrwydd a'r gofod personol y mae disgyblion awtistig eu hangen. Rydw i'n gwybod hefyd ein bod yn gwrthod llawer o ddisgyblion a ddylai fod yn dod atom.

Nid yw'r adeiladau ysgol presennol yn addas i'r diben bellach ac nid ydynt yn cynnig digon o le ar gyfer nifer y disgyblion sydd angen addysg arbennig.

Byddai cynyddu'r capasiti yn sicrhau fod pob disgybl sydd angen y ddarpariaeth yn gallu cael y ddarpariaeth.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Nid oes digon o gapasiti ar hyn o bryd. Y system…rhestrau aros…mae popeth o'i le. Ni ddylai plant orfod aros i fod mewn lleoliad addas.<br><br>Mae'r ysgol wedi bod dros ei chapasiti o ran disgyblion am nifer o flynyddoedd, ac o ganlyniad, nid oes digon o le. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn rhy fach ac nid oes digon o fannau diogel i gael ystafelloedd therapi neu gynhwysiant i gefnogi anghenion y disgyblion.<br><br>Rydw i'n meddwl bod cynyddu capasiti'r ysgol yn syniad gwych! Mae dirfawr angen am fwy o leoliadau addysg arbenigol yn yr ardal leol.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhy fach, mae gennym eisoes ormod o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol a dim digon o le. |
| **YMATEB:** |
| Fel y manylir yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol, mae'r ysgol yn wynebu anawsterau ar hyn o bryd oherwydd nifer y disgyblion sydd ynddi. Mae'r galw am leoedd yn yr ysgol wedi cynyddu ac mae rhestr aros yn tyfu. Mae'r Awdurdod Lleol yn credu bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu ateb y galw cynyddol yn awr ac yn y dyfodol. |
| **Cyfleusterau yn yr adeilad newydd**<br><br>Codwyd y mater gan 5 o ymatebwyr |
| Mae ardaloedd awyr agored yn bwysig iawn i fy mab. Ar hyn o bryd, mae'r ardal yn fach ac yn 'debyg i garchar'. Byddai'n braf cael amrywiaeth o ardaloedd egwyl / chwarae gwahanol, ardaloedd naturiol / glaswellt, pats llysiau, golygfa o'r ardal o'u cwmpas. Eu hardal chwaraeon ac offer eu hunain fel nad ydynt yn gorfod rhannu a'u cyfleusterau bwyta eu hunain.<br><br>A fyddai'r adeilad newydd yn debygol o arwain at ddefnydd ehangach e.e. ar gyfer ysgol yn ystod yr haf? Darpariaeth ar ôl ysgol? |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Mae'n ymddangos nad oes cyfleuster ar gyfer digwyddiadau diwrnod mabolgampau megis rhedeg, chwaraeon  cae ac ati.<br><br>A oes cynlluniau am ardal ardd a digon o le ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth. Ar hyn o bryd mae gan y plant ardal awyr agored fawr ac mae hon yn rhan bwysig o'r hyn sy'n eu cadw'n hapus ac yn fodlon ac sicrhau bod ganddynt y gofod a'r preifatrwydd y maent eu hangen. Bydd yr ardd ar safle Tŷ'r Ysgol yn golled enfawr i'r plant sy'n treulio llawer o'u hamser ar y siglenni / trampolinau ac maent yn cael eu defnyddio'n aml fel ffordd i ailgyfeirio disgyblion sy'n anfodlon. Efallai y gallwn fynd â'r siglenni gyda ni a chreu ardal ar eu cyfer.<br><br>Bydd yn fendigedig i'r ysgol gyfan fod gyda'i gilydd a bydd gan ddisgyblion ysgol bwrpasol sy'n gallu delio ag awtistiaeth. |
| **YMATEB:** |
| Caiff dyluniad ardaloedd allanol yr adeilad newydd ei lywio gan ganllawiau Bwletin Adeiladu, mewn perthynas ag ysgolion AAA, BB104 yw hyn. Maent yn llywio'r math o ofodau ac ardaloedd sydd eu hangen yn seiliedig ar 220 o ddisgyblion. Mae canllawiau BB104 yn nodi'r isafswm o ran maint yr ardal ac mae'r dyluniad cyfredol yn dangos ein bod dros yr isafswm o gryn dipyn. Bydd cymysgedd o ardaloedd arwyneb caled, arwyneb meddal ac ardal gynefinoedd.<br><br>Ardaloedd bwyta - bydd gan yr adeilad ei gyfleusterau bwyta ein hun sy'n golygu na fydd rhaid i ddisgyblion rannu'r rhain ag ysgolion eraill.<br><br>Bydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn penderfynu ar y ddarpariaeth ar ôl ysgol sy'n cael darparu a'r cynnig am ysgol haf. Gobeithia'r Awdurdod Lleol y bydd yr adeilad hwn yn cael ei ddefnyddio y tu allan i oriau ysgol. |
| **Maint dosbarthiadau**<br><br>Codwyd y mater gan 5 o ymatebwyr |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Hoffwn i faint y dosbarthiadau aros yn fach gyda chynnydd arfaethedig y disgyblion ar y gofrestr.<br><br>Mwy o ddosbarthiadau gyda llai o ddisgyblion.<br><br>Rydw i o blaid cyn belled â nad yw hyn yn golygu y bydd maint dosbarthiadau'n cynyddu o ganlyniad i hyn oherwydd mae hyn yn cael effaith niweidiol ar les athrawon / staff a disgyblion a straen.<br><br>Rydw i'n cefnogi'r cynnig i ehangu'r ysgol i ddarparu ar gyfer mwy o blant ag awtistiaeth, fel fy mab, oherwydd fy mod yn llwyr ymwybodol o brinder lleoliadau o'r fath yng Nghymru a'r DU. Fodd bynnag, fy mhryder i a fy ngŵr yw, o ystyried maint y dosbarthiadau presennol a nifer yr athrawon fesul dosbarth, y byddai hyn yn achosi prinder o athrawon pe bai maint y dosbarthiadau'n cynyddu. Mae fy mab angen dosbarthiadau bach a chymaint o gymorth un i un â phosibl. Byddwn yn tybio y byddech yn cynnig mwy o ddosbarthiadau mewn rhai lleoedd er mwyn cadw maint y dosbarthiadau cyn lleied â phosibl.<br><br>Beth fydd y nifer delfrydol o ddisgyblion ym mhob ystafell ddosbarth?<br><br>Mae'r nifer yn gyson uwch na'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer ysgolion arbennig, sef 8 disgybl i bob dosbarth. Mae felly yn amlwg bod yr ysgol angen mwy o le, nid yn unig i ddarparu ar gyfer disgyblion presennol a'u galluogi i ffynnu, ond hefyd i estyn allan i ddisgyblion sydd eisoes wrth y drws, yn ogystal ag eraill sydd heb eu nodi eto ond a fydd ar y ffordd yn fuan. Mae'r Llywodraethwyr yn credu'n gryf fod angen ysgol fwy, ysgol well ac ysgol ag adnoddau ar frys a bydd yr ysgol newydd hon, o ystyried y galw cynyddol, wedi cyrraedd ei chapasiti o 220 o fewn y degawd nesaf. |
| **YMATEB:** |
| Mae'r ysgol newydd yn cael ei dylunio i fod ag uchafswm o 8 disgybl ym mhob ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol o'r farn bod grwpiau bach o 8 neu lai yn caniatáu iddynt ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn i bob disgybl fod â chynllun |

| |
|---|
| unigol a / neu bwrpasol. Mae gan ddyluniad yr adeilad newydd nifer o ystafelloedd grŵp / gwahanu er mwyn cynnal therapïau /ymyriadau unigol. |
| **Y manteision o ddod â'r ysgol ynghyd**<br><br>Codwyd y mater gan 5 o ymatebwyr |
| Byddai dod ag YPB ynghyd ar un safle yn cefnogi datblygu perthnasau agosach a mwy cymhleth gydag iechyd, yn enwedig therapïau, a datblygu dull sy'n fwyfwy integredig o ran gofal rhwng iechyd ac addysg, i gyd-fynd â'r ddeddf ADY newydd. Byddai'n cefnogi hyfforddiant a datblygiad staff gyda sgiliau arbennig, e.e. ABA, makaton, ymyrraeth gorfforol ac ati ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.<br><br>Mae'n ymddangos mai hwn yw'r penderfyniad synhwyrol a hir ddisgwyliedig i drawsnewid Brondyffryn yn ganolfan ragoriaeth gydag adnoddau digonol a safle sy'n gwbl addas i'r diben.<br><br>Fel aelod o staff yn YPBD, rydw i'n llwyr ymwybodol o'r angen cynyddol am ddarpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Bydd cyfuno'r tri safle presennol yn hynod fuddiol i gynnydd ein disgyblion hefyd.<br><br>Mae YPBD wedi cael ei rhannu ar draws safleoedd ers blynyddoedd. Gan olygu y gall ein disgyblion ddim ond cael mynediad at un o'r safleoedd hyn er y byddai rhai o'n disgyblion yn elwa'n fawr o allu cael mynediad at o leiaf dau safle ar gyfer gweithgareddau gwahanol a chael cwricwlwm sy'n briodol iddynt er mwyn i bob disgybl allu cael mynediad at addysg sy'n addas ar eu cyfer. Fel aelod o staff, bydd gallu gweithio ar y safle fel tîm o fantais i bawb. Rydym yn falch iawn o weithio mewn ysgol mor arbennig a gallu helpu mwy o blant ag awtistiaeth - ac rydw i'n siŵr y bydd cymuned Dinbych hefyd.<br><br>Rydw i'n cytuno â'r cynlluniau i gael yr holl ddisgyblion ar un safle a fydd hefyd yn helpu gyda phontio. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| **YMATEB:** |
|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cytuno y bydd llawer o fanteision dod â staff a disgyblion ynghyd mewn un adeilad gan gynnwys hyfforddiant priodol a datblygu sgiliau arbenigol.. |
| **Cynnig amgen**<br><br>Codwyd y mater gan 7 o ymatebwyr |
| Fel cynnig amgen, hoffwn gynnig y syniad o adeiladu'r ysgol newydd ar y tir y tu ôl i'r parc sglefrio a'r tir sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer CPD Tref Dinbych. Byddai'r datblygiad hwn yn cynnwys gosod trac athletau synthetig modern y tu ôl i'r ganolfan hamdden, gyda stand bychan dan do i wylwyr. Byddai'n darparu lle ar gyfer y clwb pŵl-droed yn ystod misoedd y gaeaf ac yn darparu cyfleusterau chwaraeon llawer iawn gwell na'r rhai sydd gan y gymuned fynediad atynt ar hyn o bryd.<br><br>Mae'n rhaid bod yna gynnig gwell ar gyfer safle tir brown neu wneud yn well ag Ysgol Uwchradd Dinbych ei hun.<br><br>Byddai safle y tu allan i'r drefn yn fwy priodol. Ni fyddai'r caeau chwarae presennol yn cael eu colli ac ni fyddai unrhyw lygredd a thagfeydd traffig ychwanegol.<br><br>A oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r posibilrwydd o ehangu'r lleoliadau presennol i gynyddu'r capasiti yn ôl y galw?<br><br>Mae'n debyg y byddai hyn yn amhosib' ond mae'n siŵr y byddai'r tir ger Gerddi yn cynnig yr heddwch a'r llonyddwch y mae'r plant hyn yn dyheu amdano?<br><br>Dydw i ddim yn meddwl bod cael ysgol ar wasgar ar draws safleoedd gwahanol yn ddrwg o beth ac rydw i'n hoffi bod hyn yn rhoi profiadau tebyg o ran pontio i ddisgyblion fel profiadau disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd cyfatebol (h.y. newid lleoliad a symud i'r ysgol uwchradd). Er bod newid yn fwy heriol i ddisgyblion ag Anhwylder Sbectrwm |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Awtistiaeth mae'n rhan anochel o fywyd ac mae rheoli gyda chefnogaeth yn brofiad dysgu da i blant. Tybed a fyddai modd ehangu'r ysgolion ar eu safleoedd presennol?<br><br>Dydw i ddim yn siŵr pam nad yw caeau rygbi presennol Ysgol Uwchradd Dinbych wedi cael eu harchwilio a'u hystyried cyn amharu ar ddysgwyr Ysgol Uwchradd Dinbych. |
| **YMATEB:** |
| Yn 2019, mi wnaeth adroddiad ymarferoldeb edrych ar opsiynau o ran datblygu Ysgol Plas Brondyffryn. Fel rhan o'r astudiaeth, edrychwyd ar safle presennol Tŷ'r Ysgol fel opsiwn, fodd bynnag, mae'r safle ar oleddf serth a byddai darparu ar gyfer maint yr adeilad newydd yn golygu llawer iawn o waith cloddio. Mae gan y safle adeiladau rhestredig hefyd.<br><br>Opsiwn arall a archwiliwyd oedd adnewyddu'r safle uwchradd presennol gan ddefnyddio rhai rhannau o Ysgol Uwchradd Dinbych - roedd yr opsiwn hwn yn rhagdybio bod Ysgol Uwchradd Dinbych yn wag ac y gellid gwneud y gwaith heb amharu gormod ar y disgyblion. |
| **Pryderon o ran teithio / traffig**<br><br>Codwyd y mater gan 10 o ymatebwyr |
| Ystyriwch unrhyw lwybrau teithio llesol i'r ysgol a chysylltu â llwybrau eraill os yn bosibl.<br><br>Sut a ble fydd yr adeilad yn debygol o gael ei leoli - yw hyn yn debygol o gynyddu nifer y cerbydau ar hyd Ffordd Ystrad? A fydd hyn yn cael effaith negyddol ar y llwybr trymped (cerdded a beicio).<br><br>Yr unig feirniadaeth rydym erioed wedi'i chael am yr ysgol yw'r trafferth â cheir / tacsis ar y pwynt gollwng a chasglu. Y gobaith yw y bydd y sefyllfa hurt hon yn dod i ben a bydd datrysiad ymarferol yn cael ei ganfod. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Mae'r effaith ar isadeiledd lleol o ran y cynnydd mewn traffig hefyd yn bryderus.

Ar hyn o bryd, nid oes gan safle'r ysgol gynradd lwybr o'r maes parcio neu o ochr mynedfa'r maes parcio i'r ysgol i ollwng plant, a fydd llwybr cerdded ar y safle newydd?

O ystyried bod y cyngor yn cynnig cynyddu nifer y disgyblion, sut maent yn rhagweld y bydd cludiant teithwyr yn cael mynediad i'r safle? Unwaith eto, nid yw Lôn Parc a'r gyffordd i Ffordd Rhuthun yn addas ar gyfer yr holl draffig a byddai angen gwneud gwelliannau sylweddol i gynllun y ffordd gyfredol i wneud hon yn gyffordd ddiogel…o ystyried faint o gerbydau a theithwyr rwyf wedi'u gweld yn ciwio i gyrraedd y safle ar Ffordd y Rhyl, llawer o yrwyr tacsis diamynedd sy'n ysu i ollwng y plant.

Rydw i hefyd yn pryderu am y traffig ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn plant ysgol os bydd yr adeilad newydd hwn yn cael ei ddatblygu. Mae swm y traffig yn ystod rhai cyfnodau o'r diwrnod - yn Nhŷ'n Fron a Lôn Parc - yn eithriadol ac mae meddwl y bydd y swm hwn yn cynyddu yn bryderus. Mae ardal Ysgol Uwchradd Dinbych eisoes yn llawn tagfeydd - bysiau, tacsis ac ati, fel nad yw'r cyffyrdd yn gallu ymdopi â llawer mwy o draffig.

Pryder arall yw'r cynnydd mewn traffig ar Ffordd Ystrad sydd eisoes yn ffordd eithaf cul a throellog - ac yn llawn cymeriad oherwydd hynny - bydd hyn yn newid y pen yma o Ddinbych yn gyfan gwbl ac er gwaeth. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, bydd pen uchaf Dinbych yn cael effeithio gan y gwaith adeiladu hir dymor yn yr hen ysbyty meddwl ac ar yr un pryd, bydd pen isaf y dref (Ffordd Ystrad) yn cael ei effeithio gan waith adeiladu'r ysgol.

Fel trigolyn lleol, rydw i'n bryderus iawn am sut fydd y cynnydd mewn traffig i'r safle yn cael ei reoli, ar hyn o bryd mae'r tacsis yn ysgol gynradd Plas Brondyffryn yn parcio ar y safle presennol felly ble fydd y fynedfa ddiogel i'r cerbydau gael mynediad i'r safle arfaethedig newydd?

Bydd mynediad i'r safle yn orlawn ac yn cyflwyno peryglon ychwanegol i gerddwyr a phlant ysgol sy'n mynd i'r ddwy ardal ysgol. Bydd y gyfran uwch o gerbydau, yn cynnwys bysiau, hefyd yn achosi problemau ychwanegol i'r isadeiledd sydd eisoes yn brysur.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| **YMATEB:** |
| --- |
| Y cynnig presennol yw tynnu pob cerbyd oddi ar y briffordd fel na fydd unrhyw giwio ar Ffordd Ystrad. Bydd y disgyblion yn cael eu gollwng o fewn parth diogel yn union gyferbyn â'r ysgol. Bydd y disgyblion ddim ond yn gadael y cerbydau pan fydd pob cerbyd wedi dod i stop. Bydd y broses hon yn cael ei rheoli gan staff yr ysgol a bydd cerbydau ddim ond yn cael gadael y parth pan fydd yr holl ddisgyblion yn ddiogel yn yr ysgol.<br><br>Bydd y man gollwng yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer yr holl dacsis a bysiau mini a ragwelir. Bydd unrhyw gerbydau hwyr yn ciwio ym maes parcio'r athrawon ac nid ar y ffordd. Mae ardal ar wahân i ddisgyblion y Ddarpariaeth Ysgol Arbennig gael eu gollwng a hefyd i'r disgybl achlysurol sy'n cael trafferth dod allan o'r car. Mae 16 o fannau parcio i ymwelwyr ac 17 o fannau parcio i staff yn hygyrch ar bob adeg - mae gweddill y gofodau parcio i staff mewn ardal a reolir i gynorthwyo â gollwng disgyblion yn ddiogel yn y 'man gollwng'. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei thrafod mewn partneriaeth â'r ysgol.<br><br>Bydd adran priffyrdd CSDd yn rhan o sicrhau bod y cynlluniau yn ddiogel ac yn cydymffurfio. |
| **Defnydd cymunedol**<br><br>Codwyd y mater gan 1 ymatebydd |
| Rydw i hefyd yn falch o weld cynigion megis ehangu defnydd posibl yr adnoddau ar gyfer y gymuned leol hefyd yn cael eu hystyried yn y cynllun, yn enwedig y cyfeiriad at gaffi cymunedol a allai fod ar gael ar gyfer darpariaeth hamdden a chwaraeon lleol. |
| **YMATEB:** |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Mae'r Llywodraethwyr yn awyddus y bydd yr adeilad newydd yn hygyrch i'r gymuned ei ddefnyddio y tu allan i oriau. Mae'r caffi yn gyfle presennol i'r ysgol sefydlu perthynas rhyngddyn nhw a'r gymuned. Bydd disgyblion yn gallu dysgu sgiliau cymdeithasol a lletygarwch drwy ryngweithio ysgafn ac wedi'i reoli gyda'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr cerdded a beicio o amgylch safle'r ysgol, a bydd unigolion yn y gymuned yn cael cyfleoedd i gyfarfod disgyblion. sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol, i werthfawrogi eu heriau a'u hanawsterau yn well. |
| **Defnydd adeiladau presennol yn y dyfodol**<br><br>Codwyd y mater gan 3 ymatebydd |
| Pa gynlluniau sydd wedi cael eu hystyried i ddefnyddio'r adeiladau presennol, gymharol newydd, yn y gymuned?<br><br>Beth mae'r cyngor yn cynnig y dylid ei wneud gyda'r hen adeilad ger Ysgol Frongoch, a fydd yn cael ei wneud yn addas i'w ddefnyddio gan yr ysgolion eraill gerllaw neu a fydd yn rhywbeth trafferthus a diwerth?<br><br>Mae pryder hefyd ynglŷn â swm yr adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio sydd yn wastraff megis y safle Brondyffryn blaenorol ar Ffordd Ystrad a beth fydd yn digwydd i'r hen adeiladau rŵan. |
| **YMATEB:** |
| Mae trafodaethau ynglŷn â'r tri safle a fydd yn cael eu gwagio, os bydd y prosiect yn datblygu, yn mynd rhagddynt. O ran yr opsiynau am safle cynradd o amgylch Ysgol Frongoch, bydd yr opsiwn i ddefnyddio'r gofod gwag yn cael ei ystyried.<br><br>Bydd y safle uwchradd drws nesaf i Ysgol Uwchradd Dinbych yn ffurfio rhan o ddatblygiadau Ysgol Uwchradd Dinbych a bydd yn caniatáu i'r ysgol gael ei haildrefnu a'i hailwampio yn defnyddio'r gofod ychwanegol.  Mae safle Tŷ'r Ysgol drws nesaf i'r ddarpariaeth breswyl, Gerddi Glasfryn, sydd ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu a bydd |

efallai'n ffurfio rhan o unrhyw ddatblygiadau o amgylch hyn. Mae'r elusen SENSE hefyd wedi symud i'r safle ac ailwampio 2 adeilad arall ac mae'n bosib y byddant eisiau ehangu eu darpariaeth.

**Ystyriaethau amgylcheddol**

Codwyd y mater gan 2 ymatebydd

A oes unrhyw ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r dulliau adeiladu / y deunyddiau a fyddai'n cael eu defnyddio, yn enwedig o ystyried rhaglen effaith carbon CSDd.

Yn amlwg, mae angen i ni adeiladu ar gyfer y dyfodol ac ystyried traul amser gymaint ag y gallwn o ran costau cynnal a gwresogi yn ogystal â chaniatáu digon o fannau storio a mannau cymunedol.

**YMATEB:**

Mae CSDd wedi ymrwymo i'r canlynol mewn perthynas ag unrhyw brosiectau adeiladu newydd:

- Carbon net sero o safbwynt adeiladu
- Carbon net sero o safbwynt gweithredu
- Carbon net sero o safbwynt bywyd cyfan

Bydd y dyluniad ar gyfer yr adeilad newydd yn croesawu'r holl ofynion uchod fel elfen graidd o'r gwaith dylunio.

**Cysylltiadau ag Ysgol Uwchradd Dinbych / Hamdden Dinbych**

Codwyd y mater gan 6 ymatebydd

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Faint o ymgynghori sydd wedi cael ei wneud ag Ysgol Uwchradd Dinbych a Hamdden Dinbych am yr effaith y bydd y newid hwn yn ei gael ar eu darpariaeth.

Bydd yr adeilad ar y safle arfaethedig yn lleihau'r cyfleoedd am chwaraeon a'r amwynder i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych.

Rwyf yn teimlo'n ansicr am roi'r ddarpariaeth arbenigol wrth ymyl yr ysgol uwchradd. Mae llawer o blant wedi cael profiadau negyddol yn gysylltiedig â darpariaeth brif ffrwd cyn mynychu'r ysgol arbenigol ac rydw i'n meddwl efallai y byddai bod mor agos at leoliad / carfan sydd wedi achosi gofid / trawma iddynt yn anodd. Rydw i hefyd yn meddwl bod angen i'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol y gall pobl ifanc fod yn greulon iawn, a bydd yn rhaid i'r cyswllt rhwng yr ysgol uwchradd brif ffrwd a'r ddarpariaeth arbenigol, yn enwedig ar gyfer y rhai hynny ag anghenion mwy cymhleth, gael ei reoli'n ofalus a'i fonitro'n gyson ac yn gynhwysfawr.

Rydw i hefyd yn gwrthwynebu oherwydd yr effaith ar Ysgol Uwchradd Dinbych. Fel rhiant i 3 o blant yn Ysgol Uwchradd Dinbych, rydw i wedi ffieiddio eu bod unwaith eto yn cael eu gadael i lawr gan CSDd a'r AALl. Rwy'n teimlo fod digon o leoliadau eraill sy'n fwy addas ar gyfer ysgol newydd y dylid eu hystyried. Mae'r ffaith fod Hamdden Sir Ddinbych / CSDd wedi gosod ffens o amgylch y caeau 12-18 mis yn ôl yn achos pryder gan ei fod yn awgrymu bod y cynnig hwn wedi bod ar y gweill o'r dechrau. Yn ogystal byddai'r traffig ychwanegol ar Ffordd Ystrad / y Ganolfan Hamdden yn effeithio ar drigolion lleol.

Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych eisoes yn gorfod croesi ffordd (Clwyd Avenue) i gyrraedd eu gwersi ymarfer corff a gyda'r cynnig newydd hwn, ble fydd cae newydd y disgyblion? Ar draws llwybr troed cyhoeddus? Ni chaniatawyd hyn yn Ysgol Uwchradd y Rhyl oherwydd materion diogelu amrywiol felly does bosib y bydd hyn yn cael ei ganiatáu yn Ninbych, heb sôn am yr amser dysgu a fydd yn cael ei wastraffu yn cerdded ar draws y caeau i'r wers, o safbwynt gweithredol, bydd llawer o amser yn cael ei wastraffu.

Mae'n ymddangos bod yr ysgolion Saesneg iaith gyntaf yn cael eu tangynrychioli ac mai nhw yw'r perthnasau tlawd o ran unrhyw gyllid neu ddatblygu safle ysgol newydd. Nid

| |
|---|
| yw Ysgol Uwchradd Dinbych yn addas i'r diben bellach, mae'n dangos ei hoed ac yn ymarferol i ddenu disgyblion newydd. Mae'r gwelliannau ar gyfer yr ysgol, ar ffurf adeilad newydd, yn hir ddisgwyliedig. Bydd mynediad at gaeau chwarae'r ysgol i blant Ysgol Uwchradd Dinbych allu cymryd rhan yn eu gweithgareddau chwaraeon, yn cynnwys croesi dwy ardal â giatiau a mynd ar hyd llwybr troed a beicio cyhoeddus. Ni chaniatawyd hyn yn ystod y gwaith i adeiladu adeilad newydd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl, felly ni all fod yn dderbyniol yn Ninbych. Ble mae'r amddiffyniad diogelu yn gysylltiedig â diogelwch plant yn cael ei ystyried yn y disgwyliad hwn. Bydd yn lleihau amserlen bresennol y plant ac yn gwneud gweithgareddau chwaraeon yn llai cynhwysol ar gyfer y plant yn Ysgol Uwchradd Dinbych a fydd dan anfantais oherwydd y safleoedd newydd. Dylid gwrthwynebu ac ailystyried y datblygiad hwn gan nad yw'n ddewis hyfyw i blant yn Ysgol Uwchradd Dinbych a fydd yn colli allan yn sylweddol os yw'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo. |
| **YMATEB:** |
| Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn rhan o brosiectau Band B yr Awdurdod Lleol ac mae'n anochel yn gysylltiedig â'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Plas Brondyffryn.<br><br>O ystyried natur arbenigol Plas Brondyffryn a'r angen i unrhyw waith adeiladu gael ei gynnal yn bell oddi wrth y safleoedd presennol oherwydd garfan o ddisgyblion yn yr ysgol, cytunwyd y byddai'r cynnig hwn yn symud ymlaen gyntaf. Roedd y pwysau sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd o ran ddiffyg capasiti hefyd yn ffactor sylweddol o ran sicrhau bod y prosiect hwn yn cael ei ddatblygu'n gyntaf.<br><br>Os yw'r ddarpariaeth uwchradd at Ysgol Plas Brondyffryn yn gadael safle Ysgol Uwchradd Dinbych fel rhan o brosiect Ysgol Uwchradd Dinbych, nid yn unig y bydd ganddynt eu hadeiladau ond hefyd iard fwy a gwell mynediad at gae arall yr ysgol a fydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwersi Addysg Gorfforol yn unig.<br><br>Nid yw llif Ysgol Uwchradd Dinbych yn ddelfrydol ar hyn o bryd ac, ar y cyfan, dyfarnir sgôr D iddi am gyflwr yr adeilad. Bydd y dewisiadau tebygol o ailwampio, ailfodelu, dymchwel ac ailadeiladu yn cael eu hategu gan y dewis i ailwampio a defnyddio 'r |

adeilad Plas Brondyffryn gwag sydd mewn cyflwr gwell. Bydd hyn yn gwella’r cynnig i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Dinbych ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer prosiect Ysgol Uwchradd Dinbych.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Uwchradd Dinbych a disgyblion uwchradd Ysgol Plas Brondyffryn yn defnyddio cyfleusterau’r ganolfan hamdden yn aml - mae’r ddwy ysgol yn defnyddio’r brif neuadd, y stiwdio ddawns, y cae, y cae bob tywydd a’r pwll nofio. Mae’r ddwy ysgol yn cydweithio i sicrhau bod y cyfleusterau wedi’u hamserlennu mewn ffordd sy’n addas i’r ddwy ysgol. Mae gan Ysgol Uwchradd Dinbych gytundeb Defnydd Deuol gyda’r ganolfan hamdden ac yna mae Ysgol Plas Brondyffryn yn gweithio gydag Ysgol Uwchradd Dinbych ar ddefnydd priodol. Fel rhan o’r cytundeb hwn, mae’r cae bob tywydd ar gael i’r ysgolion bob dydd yn ystod y tymor o 8.45-17.00. Dim ond ar gyfer nofio mae disgyblion cynradd Ysgol Plas Brondyffryn a disgyblion anghenion uchel sydd ar safle gwahanol, yn defnyddio’r ganolfan hamdden. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen fel a gynlluniwyd, bydd disgyblion ddim ond yn defnyddio’r ganolfan hamdden ar gyfer nofio yn y dyfodol oherwydd bydd yr holl wersi Addysg Gorfforol eraill yn cael eu cynnal yn y cyfleuster newydd.

Mae Swyddogion o Hamdden Sir Ddinbych yn ymwybodol o’r prosiect ac yn cael gwybod y ddiweddaraf yn rheolaidd. Mae prosiectau Ysgol Plas Brondyffryn ac Ysgol Uwchradd Dinbych wedi’u plethu â’r ganolfan hamdden ac maent yn bartneriaid pwysig o ran cyflwyno Addysg Gorfforol yn y ddwy ysgol.

**Integreiddio gyda’r briff ffrwd**

Codwyd y mater gan 4 ymatebydd

Mae’r cynnig i gael safle cyfun ar gyfer pob grŵp oedran yn lleihau’r cyfleoedd i integreiddio gyda disgyblion prif ffrwd, yn enwedig i blant cynradd.

Mae’r ysgol eisoes yn defnyddio safleoedd presennol. Mae gwahanu’r safleoedd hyn wedi diwallu anghenion disgyblion yn dda ar sail anghenion ymddygiadol a dysgu. Mae’r gwahanu wedi bod yn seiliedig ar allu ac anghenion rheoli (ymddygiadol). Mae llawer o’r disgyblion yn cael eu lleoli y tu allan i’r sir, dylid darparu ar gyfer disgyblion lleol a

chynhwysiant lleol. Mae gwahanu disgyblion yn teimlo’n hen ffasiwn bellach ac mae unedau o fewn safleoedd prif ffrwd yn hybu cynhwysiant a gwybodaeth am anghenion anableddau gan grwpiau cyfoedion, grwpiau staff a’r gymuned fel ei gilydd.

Dylai bod y disgyblion oed cynradd ym Mhlas Brondyffryn yn integreiddio i ysgol gynradd / ysgol iau / ysgol fabanod ar gyfer rhai pynciau e.e. Addysg Gorfforol, Celf. Ar hyn o bryd maent wrth Ysgol Frongoch, Ysgol Twm o’r Nant a ddim rhy bell o Ysgol y Parc. Ar safle Ysgol Uwchradd Dinbych byddent yn lawer iawn pellach - tydi hyn ddim yn gwneud synnwyr.

Ar hyn o bryd, mae adran gynradd Ysgol Brondyffryn ger Ysgol Fron Goch ac Ysgol Twm o'r Nant. Mae’n gyfleus o safbwynt integreiddio disgyblion o Ysgol Brondyffryn i ddosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer rhai pynciau megis Addysg Gorfforol neu Gelf neu bynciau eraill a fyddai unigolyn awtistig yn elwa o fod gyda disgyblion prif ffrwd. Byddai symud y disgyblion hyn i’r safle newydd arfaethedig yn golygu mwy o amser teithio rhwng ysgolion a llai o amser dysgu.

**YMATEB:**

O ran y safle cynradd ar hyn o bryd nid oes cysylltiad ffisegol rhwng yr ysgol ac Ysgol Frongoch. Mae’r disgyblion o’r ddwy ysgol yn rhannu ystafell fwyta bob dydd yn ystod amser cinio ond dyna raddau eu cydweithrediad. O ran disgyblion yn defnyddio’r ysgol brif ffrwd, nid yw hyn wedi digwydd ers nifer o flynyddoedd.

Mae’r safle uwchradd yn cysylltu ag Ysgol Uwchradd Dinbych drwy goridor ond mae drws sy’n cysylltu’r ddwy bob amser ar glo. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn treulio amser yn Ysgol Uwchradd Dinbych. O bosib oherwydd bod y disgyblion hyn yn astudio pwnc y mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn ei gynnig, nad yw ar gael yn Ysgol Plas Brondyffryn, ac maent yn dymuno mynd i’r coleg yn dyfodol i astudio hyn. Disgyblion eraill a allai elwa o dreulio amser mewn lleoliad ‘prif ffrwd’ i baratoi am yr hyn sydd i ddod pan fyddant yn gadael Ysgol Plas Brondyffryn yw’r disgyblion hynny sydd ar y trywydd cywir i gael graddau TGAU Lefel 2. Eleni, bu i 4 disgybl blwyddyn 10 ddechrau

| |
|---|
| ar gyrsiau TGAU yn Ysgol Uwchradd Dinbych, gyda chefnogaeth ein Cymorthyddion Addysgu.<br><br>Ni fydd symud i'r safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad newydd yn effeithio ar hyn o gwbl a bydd yr agwedd hon ar integreiddio yn parhau yn union fel y mae hi ar hyn o bryd. Nid yw'r cysylltiad ffisegol rhwng y ddwy ysgol yn berthnasol oherwydd bod rhaid i ddisgyblion fynd i mewn i Ysgol Uwchradd Dinbych drwy'r cyntedd cyhoeddus a chofrestru wrth gyrraedd. Mae'r llwybr o'r safle newydd arfaethedig i Ysgol Uwchradd Dinbych yn fyrrach, yn symlach ac yn fwy diogel na'r un presennol. |
| **Lleoliad**<br><br>Codwyd y mater gan 6 ymatebydd |
| Rydw i'n meddwl bod yr ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer yr ysgol yn gyfyng ac wedi'i hamgylchynu. Nid oes lle i ehangu'r safle i ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion oherwydd ein bod eisoes dros ein capasiti ar y safle presennol a mwy na thebyg y bydd yr un peth yn digwydd ar y safle newydd.<br><br>Mae'r lleoliad yn achos pryder hefyd. Bydd lleoli'r adeilad y tu ôl i ysgol uwchradd gyda disgyblion sy'n swnllyd a gwyllt hefyd yn cynyddu lefelau sŵn. Mae yna hefyd y mater o'r ffin rhwng y ddwy ysgol a'r posibilrwydd y gallai disgyblion alw enwau cas ar ei gilydd drwy'r ffens ac ati.<br><br>Dylai bod hyn wedi cael ei ystyried cyn ail-leoli'r elfen iau o Blas Brondyffryn a dylai bod y Cyngor wedi bod yn flaengar a rhagweld y byddai'r ysgol ac anghenion y plant yn newid. Y ogystal, roedd lleoli'r adeilad wrth ymyl ysgol brif ffrwd yn annoeth.<br><br>Dydw i ddim yn gwrthwynebu adeiladu ysgol newydd a gallaf ddeall yr angen amdani. Ond, yn fy marn i, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r lleoliad.<br><br>Rydw i'n credu'n gryf y dylid dewis safle arall.<br><br>Rydw i'n gwrthwynebu'r cynnig hwn, oherwydd y lleoliad arfaethedig ar gyfer yr ysgol. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Rydw i hefyd yn ansicr ynglŷn â pham y byddech chi'n adeiladu ysgol i blant sydd efallai ag anghenion synhwyraidd yn ogystal ag anghenion cymhleth eraill, ar ganol llwybr troed cyhoeddus prysur a chae chwaraeon sy'n cael ei ddefnyddio'n aml. |
| **YMATEB:** |
| Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r cynnig hwn yn ymwneud â chynyddu capasiti Ysgol Plas Brondyffryn, ac nid lleoliad yr adeilad newydd - bydd hyn yn amodol ar y broses gynllunio.<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol yn credu mai Dinbych yw'r lleoliad iawn ar gyfer yr ysgol, mae'r ysgol wastad wedi bod yn y dref ac o ystyried dalgylch y disgyblion yn yr ysgol, mae Dinbych yn ganolog ac yn sicrhau bod amseroedd teithio'r disgyblion hynny o ogledd a de'r sir yn rhesymol.<br><br>Bydd dyluniad yr ardaloedd tu allan yn ystyried agosrwydd y llwybr cerdded / beicio a bydd y rhan fwyaf o'r ardaloedd wedi'u sgrinio rhywfaint i sicrhau preifatrwydd y disgyblion. |
| **Gerddi Glasfryn**<br><br>Codwyd y mater gan 1 ymatebydd |
| Rydw i'n credu y dylai Gerddi Glasfryn aros dan reolaeth Brondyffryn. Rydw i'n ymwybodol o'r rhesymau dros gynnig y gwahaniad hwn. Rydw i'n credu bod y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar yr ysgol, sy'n atal datgeliad Gerddi Glasfryn i deuluoedd presennol a darpar deuluoedd yn warthus. Rhan fwyaf o'r amser mae'r adnoddau hyn yn cael eu tanddefnyddio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchiad o'r angen! Yn rhy aml mae teuluoedd yn cyrraedd pwynt argyfwng cyn i ychwanegu cymorth gael ei ystyried, |
| **YMATEB** |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys y ddarpariaeth breswyl Gerddi Glasfryn. Mae'r ddarpariaeth hon yn dal ar gael i Ysgol Plas Brondyffryn. Mae dyfodol y ddarpariaeth hon yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda'r Llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol ond nid yw'n gysylltiedig â chynyddu capasiti'r ysgol. |
| **Derbyniadau**<br><br>Codwyd y mater gan 3 o ymatebwyr |
| Rydw i'n pryderu'n fawr am gynigion yn y dyfodol mewn perthynas â newidiadau i'r polisi derbyniadau. Mae'r plant yn yr ysgol wir angen y ddarpariaeth hon. Gan fod 75% o'r ddarpariaeth yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a 25% gan CSDd, rydw i'n poeni y bydd hyn yn arwain at loteri cod post. Rydw i wedi clywed sylwadau megis "gadewch i ni weld beth sydd yn yr ardal leol gyntaf" a "thynhau trefniadau derbyn". Mae hyn yn gamgymeriad oherwydd, yn lleol, mae'r ardal wedi gweld tanwariant sylweddol am gyfnod mor hir o amser fel nad oes unrhyw leoliadau addas sy'n gallu cymharu â Brondyffryn a'r hyn sy'n cael ei ddarparu i'r disgyblion yno. Mae YPBD yn ysgol heb ei hail (yn fy marn i).<br><br>Mae'r ddarpariaeth i blant â Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth yn druenus o annigonol ac nid yw'r ysgolion uwchradd prif ffrwd yn gallu darparu amgylchedd addas i blant awtistig allu ffynnu - a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar YPB. Yn ogystal ag ehangu YPB dylech hefyd ystyried gwneud ysgolion uwchradd prif ffrwd yn addas i ddisgyblion niwroamrywiol (nid ydynt ar hyn o bryd) er mwyn i bob plentyn allu cael mynediad at addysg o ansawdd da. Dylech ofyn i arbenigwyr Awtistig eich helpu gyda hyn - (yn hytrach nag arbenigwyr ar Awtistiaeth) oherwydd y bobl sydd â phrofiad ohono yw'r rhai sydd wir yn deall beth sydd ei angen.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r ysgol dan straen mawr o ystyried y cyfaddawdau sydd wedi gorfod cael eu gwneud er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd mewn disgyblion tu hwnt i'r capasiti o 116 o ddisgyblion. Nid yw'r cynnydd hwn yn ddigwyddiad untro, mae'n sefydlog ac yn barhaus. Mae mwy a mwy o bobl ifanc yn cael diagnosis o awtistiaeth ac mae galw cyson am leoedd. Yn eithaf diweddar, cytunodd yr ALl y byddai nifer y derbyniadau |

| |
|---|
| newydd yn gyfyngedig i sefyllfaoedd blaenoriaeth yn unig. Er i'r penderfyniad hwn leihau nifer y derbyniadau newydd sydd wedi bod o gymorth i sefydlogi trefniadaeth yr ysgol ond, heb os, mae wedi achosi niwed i'r bobl ifanc hynny sydd wir angen cael eu derbyn i'r ysgol. Nid yw'r cyfaddawdau yr wyf wedi cyfeirio atynt yn fater o gynnal mân waith ailwampio i drefniadau'r ysgol, maent yn addasiadau sylweddol sydd wedi gwneud y niferoedd yn rhai mae posib eu rheoli ond sydd hefyd wedi dirywio ansawdd y ddarpariaeth addysgol. Felly, mae'r ystod o ardaloedd neu ystafelloedd arbennig (ardaloedd gwahanu, ardaloedd chwarae, ardaloedd synhwyraidd, ardaloedd tawel) sydd, yn ogystal â'r ystafelloedd dosbarth arferol, yn rhan hanfodol o unrhyw ysgol arbennig, wedi cael eu lleihau nes eu bod yn gysgod o'r hyn sydd wir ei angen a beth oedd yn arfer bodoli. Er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn Ysgol Plas Bron Dyffryn mae'n bwysig iawn i ddarparu amgylchedd digynnwrf a'r cyfleusterau, y gofod a'r cyfleoedd i roi seibiant i'r synhwyrau pan fo angen. Nid oes gan yr adeilad presennol y capasiti i ddarparu hyn ar gyfer nifer y disgyblion sy'n bresennol yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at, ar adegau, cynnydd mewn ymddygiadau ansefydlog, sydd i gyd yn fwy heriol fyth oherwydd bod y prosesau cydnabyddedig a sefydledig ar gyfer ymdrin â'r rhain wedi cael eu haddasu oherwydd diffyg lle. |
| **YMATEB** |
| Fel Awdurdod Lleol byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion prif ffrwd i sicrhau bod disgyblion awtistig, os yn bosibl, yn gallu aros mewn ysgolion prif ffrwd gyda'r gefnogaeth gywir.<br><br>Bydd disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol yn symud i'r adeilad newydd. Un o ffrydiau gwaith y prosiect fydd adolygu'r polisi derbyniadau er mwyn cadarnhau trefniadau mynediad i lleoliadau i ddisgyblion o du allan i'r sir. Bydd ymgynghori ar y polisi derbyniadau diwygiedig yn digwydd gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth |
| **Cyllid**<br><br>Codwyd y mater gan 4 o ymatebwyr |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

Gyda'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol, sut fydd hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth i bob plentyn, sydd ar hyn o bryd yn £26k i bob disgybl. A fydd hyn yn lleihau? Pa effaith fydd hyn yn ei gael ar y disgyblion?

Faint o'r disgyblion arfaethedig sy'n byw yn Sir Ddinbych? Mae gan boblogaeth bresennol yr ysgol gyfran uchel o ddisgyblion o du allan i'r sir, os yw'r duedd hon yn parhau mae'n aneglur sut mae hyn yn elwa trigolion Sir Ddinbych, ar wahân i daliadau o du allan i'r sir. Efallai y dylai CSDd fod yn onest am hyn.

Mae adeiladu ysgol newydd yma i Ysgol Brondyffryn yn gynllun i wneud arian ar gyfer Ysgol Sir Ddinbych. Mae disgyblion o du allan i'r sir yn dod â llawer o arian i'r sir ar draul ein plant lleol…dydi hyn ddim yn iawn.

Mae llawer o ddisgyblion Ysgol Brondyffryn yn byw y tu allan i'r sir…nid ydynt yn ddisgyblion Sir Ddinbych. Mae'r Sir yn cael swm mawr o arian am bob disgybl a dderbynnir.

**YMATEB**

Caiff Ysgol Plas Brondyffryn ei hariannu yn unol â fformiwla ariannu Cyngor Sir Ddinbych a bydd yn derbyn adnoddau yn yr un modd ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, yn seiliedig ar gyfleusterau a niferoedd disgyblion yr ysgol newydd.

Fel y dangosir yn y tabl isod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y Lleoliadau Tu Allan i'r Sir yr ysgol wedi gostwng ac yn cyfri am 16% ar hyn o bryd.

| Mae'r plentyn yn byw… | Ionawr 2022 | Ionawr 2021 | Ionawr 2020 | Ionawr 2019 | Ionawr 2018 | Ionawr 2017 | Ionawr 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn Sir Ddinbych | 111 | 112 | 97 | 103 | 95 | 79 | 65 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tu allan i Sir Ddinbych | 21 | 28 | 29 | 31 | 45 | 49 | 58 |
| Cyfanswm | 132 | 140 | 126 | 134 | 140 | 128 | 123 |
| % o du allan i'r sir | 16% | 20% | 23% | 23% | 32% | 38% | 47% |

Yn wynebu galw cynyddol am leoedd a chapasiti cyfyngedig, gwnaethpwyd penderfyniad yn y tymor byr gan Sir Ddinbych, gan ddibynnu ar ganlyniad y cynigion Band B, i gyfyngu derbyniadau i ddisgyblion Sir Ddinbych nes bod ganlyniad dull hirdymor ar gyfer yr ysgol. Bydd hyn yn cael ei adolygu a'i reoli pan fydd yr adeilad newydd ar agor oherwydd bydd gan yr ysgol gynnydd o ran ei chapasiti.

**Pryderon o ran adeiladu**

Codwyd y mater gan 2 o ymatebwyr

Bydd yn rhaid i'r traffig adeiladu yrru heibio Inffyrmari Dinbych, ffordd sydd, ar hyn o bryd, yn anaddas ar gyfer cymaint â hynny o draffig, oherwydd trigolion lleol yn parcio yno a chyfluniad y gyffordd i Ffordd Rhuthun, yn ogystal â mynediad angenrheidiol i gerbydau'r gwasanaethau brys yn achlysurol. Yn ogystal, bydd swm sylweddol o lwch adeiladu, mae pob math o waith adeiladu yn creu llwch a dydw i ddim yn credu unrhyw gwmni adeiladu sy'n dweud nad yw hynny'n wir. Bydd y llwch hwn - yn dibynnu ar amodau'r tywydd - yn chwythu tuag at yr Inffyrmari , sy'n golygu y bydd achlysuron lle na fydd modd agor ffenestri'r Inffyrmari. Bydd yr holl lwch yn galw am drefniadau glanhau ychwanegol ac rydw i'n meddwl tybed sut fydd y cyngor yn lliniaru hyn. Nid yw'r sŵn o'r gwaith adeiladu, yn cynnwys traffig, yn dda i'r cleifion ychwaith. Rydw i'n teimlo dros y trigolion lleol â thai y tu ôl i'r cae chwarae a fydd hefyd yn gorfod byw â misoedd o sŵn a llwch.

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

| |
|---|
| Nid oes unrhyw ystyriaeth i drigolion a fydd yn wynebu mwy o draffig, risg, sŵn ac amhariadau yn yr ardal. |
| **YMATEB** |
| Ni fyddai traffig adeiladu i'r safle arfaethedig yn mynd heibio Inffyrmari Dinbych - byddai'r mynd i'r safle oddi ar Ffordd Ystrad.<br><br>Fel pob un o adeiladau eraill CSDd, bydd angen i'r contractwyr greu cyn lleied o sŵn a llwch a phosib a chadw trigolion cyfagos yn hysbys o unrhyw waith a fydd yn achosi amhariad. |

# Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol

## ATODIAD 7- Ymateb Estyn

**Ymateb Estyn i gynnig Cyngor Sir Ddinbych i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220.**

**Cyflwyniad**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sydd angen gweithredu yn unol â'r Cod a nid yw'r Ddeddf yn gosod gofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth yr ysgol. Felly, fel corff ymgynghorol, bydd Estyn yn darparu eu barn ar fuddion cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgiadol y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n gynnig i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220. Bydd yr ysgol yn symud i gyfleuster pwrpasol newydd sbon yn nhref Dinbych er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd.

Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o o leiaf cynnal safon y ddarpariaeth addysg a deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r cyngor wedi cyflwyno rhesymeg briodol am y cynnig. Mae'n gynnig i gynyddu capasiti'r ysgol i ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth i ddisgyblion â

Chyflwr ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Y capasiti arferol yn yr ysgol yw 116, ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae wedi bod dros ei chapasiti am y 6

blynedd diwethaf. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ddisgyblion ar restr aros i fynychu'r ysgol ac mae'r cyngor yn disgwyl i'r galw gynyddu dros y blynyddoedd nesaf ac yn awgrymu bod capasiti o 220 yn rhesymol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw eglurhad o ran pam y dewiswyd y ffigwr hwnnw.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion o bob cwr o Sir Ddinbych a thu hwnt gyda disgyblion o Sir y Fflint, Wrecsam a Gwynedd hefyd yn derbyn addysg gan y ddarpariaeth. Mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli dros bedwar safle a byddai'r cynnig yn crynhoi hyn o dri o'r safleoedd hyn i un safle gyda darpariaeth bwrpasol. Mae'r cyngor hefyd yn rhestru rhai problemau gyda chyflwr y safleoedd a ddefnyddir ar hyn o bryd a byddai cyfleuster newydd yn mynd i'r afael â hyn.

Mae'r cyngor wedi darparu manylion sy'n ymddangos yn briodol o ran amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynnig.

Mae manteision disgwyliedig y cynnig yn cynnwys cynyddu capasiti i fodloni'r galw yn well, yr holl ddisgyblion a staff ar yr un safle, trefniadau pontio gwell a chael ystafelloedd penodol ar gyfer pynciau. Mae'r anfanteision yn cynnwys cynnydd mewn traffig i un safle ac, o bosib, ardal chwarae swnllyd i bob disgybl.Ymddengys bod y rhain yn briodol ac yn rhesymol.

Mae'r cyngor yn cynnwys tri phrif risg gyda'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig, y galw am y ddarpariaeth yn lleihau, ac integreiddio disgyblion i adeilad newydd yr ysgol. Ymddengys bod y camau lliniaru yn erbyn y risgiau hyn yn briodol ar y cyfan, fodd bynnag nid yw'r cyngor yn darparu digon o wybodaeth am lwybrau amgen os byddant yn methu cael caniatâd cynllunio a chyllid.

Mae'r cyngor wedi darparu manylion ynglŷn â'r pedwar dewis a ystyriwyd fel rhan o'r broses ymgynghori hon. Roedd y dewisiadau hyn yn cynnwys gwneud dim, gwneud y lleiaf posibl drwy glirio'r ôl-groniad o ran cynnal a chadw ym mhob safle, y dewis canolradd a'r dewis a ffefrir. Mae'r cyngor wedi darparu rhesymau addas am ddiystyru tri o'r dewisiadau hyn a phigo'r pedwerydd dewis.

Mae'r cyngor yn nodi bod y safle arfaethedig eisoes yn eiddo i'r awdurdod lleol ac yn dal i fod yn nhref Dinbych, felly ni fydd yr amseroedd teithio ar gyfer disgyblion yn wahanol

iawn. Yn ychwanegol, mae’r cyngor yn ailadrodd y bydd trefniadau cludiant yn parhau i gael eu gwneud yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol y cyngor sir. Ymddengys bod hyn yn deg a rhesymol.

Mae’r cyngor wedi cynnal asesiad o’r effaith ar y Gymraeg. Mae’n nodi bod darparu darpariaeth addysgol well yn cynrychioli cyfle i gryfhau addysg Gymraeg yn yr ardal ac o ganlyniad cryfhau’r Gymraeg. Mae’n dod i’r casgliad, ar y cyfan, na fyddai yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Nid yw’r cyngor yn cyfeirio’n uniongyrchol at sut y bydd y cynnig hwn yn cefnogi’r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Fodd bynnag, mae’n nodi nad yw’r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith gyfarwyddyd mewn unrhyw Gyfnod Allweddol na phwnc, ond mae’r ysgol yn darparu’r adnoddau angenrheidiol er mwyn iddynt gael mynediad i’r cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai’n ddefnyddiol i ddarparu rhagor o fanylion ynglŷn â’r honiad hwn.

Mae’r cyngor wedi llwyddo i nodi’r costau ariannol ar gyfer y cynnig hwn. Daw o fewn Band B rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a chafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2022. Roedd y rhaglen yn cynnwys dyraniad cyffredinol o £23.8 ar gyfer y prosiect hwn. Yn amodol ar gymeradwyaeth yr achos busnes perthnasol, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu 75% o’r cyllid, gyda’r 25%yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ddinbych.

Ni ddarperir derbyniadau cyfalaf o’r cynnig hwn oherwydd bod y safleoedd presennol yn rhannu gyda chyfleusterau eraill.

**Agweddau addysgiadol o’r cynnig**

Mae’r ysgol wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg, yn cynnwys effaith y cynnig ar brofiadau dysgu ac addysgu, gofal, cefnogaeth ac arweiniad, ac arweinyddiaeth a rheoli. Mae’r cyngor yn crynhoi hyn drwy fynegi ei farn, sef, os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, byddai o leiaf yn cynnal y safon a’r ansawdd presennol o ran addysg.

Bydd yr adeilad newydd â’r adnoddau i ddarparu cwricwlwm cytbwys ac eang i bob disgybl o’r cyfnod sylfaen i ôl-16. Bydd dod â’r holl ddisgyblion a staff at ei gilydd mewn cyfleuster

pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion yn cael dylanwad cadarnhaol ar les disgyblion a'u hagwedd at ddysgu.

Mae'r cyngor wedi cynnwys y canfyddiadau o arolygiad diweddaraf yr ysgol gan Estyn a oedd ym mis Gorffennaf 2016. Bu i'r arolygiad hwn nodi dyfarniadau da ar gyfer y 3 chwestiwn allweddol ac ar gyfer perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon ar gyfer gwella.

Mae'r cyngor wedi darparu dogfen o'r enw "asesiad o'r effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg". Er bod y ddogfen hon yn ystyried effaith y cynnig ar y gymuned a'r iaith Gymraeg, nid oes digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith y cynnig ar grwpiau diamddiffyn neu ar ddisgyblion sydd â nodweddion a ddiogelir.

Mae'r cyngor wedi ystyried mai un o brif fanteision y cynnig hwn yw y byddai'r gwaith adeiladu yn cael ei gynnal yn bell oddi wrth yr holl safleoedd ysgol presennol ac felly bydd hyn yn amharu cyn lleied â phosib ar addysg y disgyblion.